



# Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru

Aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych), tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio (gan gynnwys colur lled-barhaol).

Fersiwn 2

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/This document is available in English.

Cynnwys


**Cyflwyniad** ..... 4

**Diben y canllawiau** ..... 5

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon** ..... 6

1. **Risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig** ..... 7

2. **Atal Heintiau** ..... 9

2.1 **Y Rhagofalon Atal a Rheoli Heintiau Safonol (SICPs)** ..... 9

2.3 **Ymwrthedd i wrthfiotigau ac "arch-fygiau"** ..... 10

2.4 **Micro-organebau a'r gadwyn heintio** ..... 10

2.4.1 **Enghraifft o'r gadwyn heintio sy'n gysylltiedig â *Staphylococcus aureus* (bacteria sy'n byw ar y croen a philenni mwcaidd)** ..... 12

2.4.2 **Enghraifft o'r gadwyn heintio sy'n gysylltiedig â'r feirws Hepatitis B / Hepatitis C neu HIV (feirysau a gludir yn y gwaed)** ..... 13

3. **Cynnydd yn nifer yr heintiau neu frigiad posibl o achosion, beth ddylech chi ei wneud** ..... 14

4. **Hylendid dwylo i ymarferwyr** ..... 15

4.1 **Sut i olchi dwylo** ..... 16

4.2 **Rwb dwylo seiliedig ar alcohol ac ôl-ofal** ..... 17

4.3 **Basnau golchi dwylo (WHBs) yn y man gwaith triniaethau arbennig** ..... 17

4.4 **Unedau Golchi Dwylo Cludadwy** ..... 19

5. **Paratoi'r croen a gwrth-sepsis cyn y driniaeth arbennig** ..... 20

5.1 **Trin a dosbarthu cynhyrchion i'w defnyddio ar y croen** ..... 21

5.2 **Fframwaith Techneg Aseptig Di-gyffwrdd (ANTT®)** ..... 22

5.2.1 **Paratoi'r Driniaeth** ..... 24

5.2.2 **Crynodeb o Bwyntiau Allweddol Techneg y Driniaeth** ..... 25

6. **Inciau a phigmentau yn ymwneud â thatŵio a cholur lled-barhaol (SPMU)** ..... 26

**6.1 Ansawdd dŵr** ..... 26

7. **Defnyddio a dewis cyfarpar diogelu personol (PPE)** ..... 27

7.1 **Menyg** ..... 27

7.1.1 **Y broses dewis menyg** ..... 28

7.1.2 **Storio menyg** ..... 29

7.1.3 **Sut i wisgo menyg** ..... 30

7.1.4 **Sut i dynnu menyg yn ddiogel er mwyn osgoi halogi dwylo** ..... 31

7.1.5 **Menyg latecs** ..... 32

7.2 **Ffedogau** ..... 32

7.3 **Amddiffyn y llygaid** ..... 32

8. **Glanhau amgylcheddol** ..... 33

8.1 **Pa mor aml y mae angen glanhau?** ..... 33

8.2 **Defnyddio cynhyrchion ac offer glanhau** ..... 35

8.3 **Gweithdrefn glanhau** ..... 36

8.4 **Gollyngiadau gwaed a hylif y corff (e.e. chwyd ac wrin)** ..... 37

9. **Dyluniad, strwythur a'r amgylchedd ffisegol** 38
9.1 **Awyru a goleuo** 38
9.2 **Diffiniadau: Man Gwaith Triniaethau Arbennig (SPWA)** 39
9.3 **Bwyd a Diod** 39
9.4 **Anifeiliaid** 40
10. **Rheoli gwastraff gan gynnwys offer miniog** 41
10.1 **Rheoliadau gwastraff trefol** 41
10.2 **Dosbarthu gwastraff (Codau Gwastraff Ewropeaidd)** 42
10.3 **Safonau trin gwastraff** 43
10.4 **Gwastraff offer miniog** 44
10.5 **Storio gwastraff** 44
11. **Iechyd Galwedigaethol ar gyfer ymarferwyr** 44
11.1 **Anaf gan nodwydd** 44
11.2 **Camau gweithredu yn dilyn anaf sydd wedi'i achosi gan halogydd yn tasgu neu inocwleiddio** 45
11.3 **Brechiad hepatitis B** 45
11.4 **Heintiau eraill** 46
12. **Dihalogi ac ailbrosesu offer ac offerynnau** 47
12.1 **Yr ardal a ddefnyddir ar gyfer dihalogi offer (ardal fudr)** 48
12.2 **Enghraifft o gynllun dihalogi sy'n symud o gyfeiriad budr i lân (llif gwaith)** 49
12.3 **Glanhau â llaw** 50
12.4.1 **Peiriannau glanhau uwchsain** 51
12.4.2 **Peiriannau Golchi-Diheintio (awtomatig)** 53
12.5 **Dosbarthu offer a dull dihalogi** 53
12.6 **Canllawiau ychwanegol i liniaru halogi dyfeisiau cymhleth** 55
12.7 **Beth yw sterileiddio gydag ager?** 56
12.7.1 **Math o ddyfais sterileiddio gydag ager pen mainc (ffwrn aerglos)** 57
12.7.2 **Awgrymiadau allweddol ar gyfer dyfeisiau sterileiddio ager pen mainc gan gynnwys monitro** 57
13. **Cyfeiriadau** 59
14. **Atodiadau** 61
14.1**Enghraifft o arferion gorau yn y gweithfan** 61
1 4.2 **Gweithfan Arferion Gorau ar gyfer electrolysis** 62
1 4.3 **Techneg hylif diheintio dwylo ag alcohol** 63
14.4**Sut i ddefnyddio sebon a dŵr ar gyfer hylendid dwylo** 64
14.5 **Enghraifft o Ganllawiau Triniaeth ANTT** 65

## Cyflwyniad

Mae'r cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru yn seiliedig ar leihau'r risg o haint drwy ddefnyddio egwyddorion Atal a Rheoli Heintiau (IP&C). Mae amodau'r drwydded triniaethau arbennig a'r dystysgrif cymeradwyo mangreoedd a cherbydau yn ymgorffori mesurau IP&C ac felly'n ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i ddeiliaid trwydded a thystysgrif cymeradwyo gydymffurfio â'r mesurau hyn.

Mae dwy ddogfen bwysig sy'n helpu unigolion sydd naill ai'n cyflawni triniaeth arbennig neu'n berchen ar fusnes triniaethau arbennig, neu'n rheoli busnes o'r fath, i gydymffurfio â gofynion y cynllun trwyddedu:

- Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru (y ddogfen hon) sy'n darparu gwybodaeth a chanllawiau manylach ar fesurau IP&C a sut y gellir eu defnyddio yn y sector triniaethau arbennig.

- Canllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Trwyddedu Triniaethau Arbennig sy'n darparu gwybodaeth fanwl am ofynion y cynllun trwyddedu, sut i wneud cais am drwydded a thystysgrif cymeradwyo, sut i gydymffurfio ag amodau'r drwydded a'r gymeradwyaeth a'r pwerau gorfodi sydd ar gael i'r awdurdod lleol.

Felly, dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â chanllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer ymarferwyr triniaethau arbennig a swyddogion gorfodi.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i'r Triniaethau Arbennig canlynol a ddynodir o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017:

- Mae aciwbigo yn golygu mewnosod nodwyddau ym meinwe unigolyn at ddibenion adferol neu therapiwtig, ond nid yw'n cynnwys mewnosod nodwyddau i feinweoedd at ddiben chwistrellu unrhyw sylwedd. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys nodwyddo sych.

- Mae tyllu'r corff yn golygu tyllu croen neu bilen ludiog unigolyn, er mwyn i emwaith, neu wrthrych (a nodir mewn rheoliadau), gael ei osod ar gorff yr unigolyn, ei fewnosod yng nghorff unigolyn neu ei dynnu o gorff unigolyn.

- Mae electrolysis yn golygu gwaredu gwallt corff unigolyn drwy basio cerrynt trydan drwy'r gwreiddyn drwy osod nodwydd neu chwiliedydd.

- Mae tatŵio yn golygu mewnosod unrhyw ddeunydd lliwio sy'n gadael marc lled-barhaol neu barhaol (yn cynnwys colur lled-barhaol/micro liw) mewn tyllau a wnaed yng nghroen neu bilen ludiog unigolyn.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u cyd-ddatblygu gydag arbenigwyr IPC a swyddogion Diogelu Iechyd Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae'r ymgynghoriad wedi cynnwys Ymarferwyr, Swyddogion Arweiniol Awdurdodau Lleol, Arbenigwyr Diogelu Iechyd ac arbenigwyr ym meysydd Techneg Aseptig Di-gyffwrdd, Dihalogi, Rheoli Gwastraff, Microbioleg a Dermatoleg.

## Diben y canllawiau

Mae'r canllawiau hyn ar gael i'w defnyddio gan:

- Ddeiliaid trwydded
- Ymarferwyr sy'n cyflawni triniaethau arbennig
- Perchnogion a rheolwyr busnes
- Staff sy'n gweithio mewn busnes triniaethau arbennig
- Unigolion sy'n gyfrifol am y fangre gymeradwy neu'r cerbyd cymeradwy lle mae'r driniaeth arbennig yn cael ei chyflawni
- Swyddogion Awdurdod Lleol

Y nod yw cynorthwyo cydymffurfiaeth ag amodau'r cynllun trwyddedu triniaethau arbennig gorfodol a deall yn well sut i ddefnyddio egwyddorion IP&C wrth ymarfer i amddiffyn y cleient a'r ymarferydd.

## Sut i ddefnyddio’r ddogfen hon

Yn ogystal ag esboniadau ar fesurau IP&C, mae'r canllawiau hyn yn cynnwys blychau a symbolau i gyfeirio at yr amodau a thynnu sylw at negeseuon allweddol.

Mae blwch gwyrdd yn nodi amodau perthnasol Trwydded Triniaethau Arbennig (SPL) ac amodau perthnasol Tystysgrif Cymeradwyo Mangreoedd/Cerbydau (PVAC).

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r Amodau yn:**

- **Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024 a**
- **Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**

Mae blwch melyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer arfer gorau mewn IP&C gan yr ymarferydd neu berchennog y busnes.

**Mae'r blwch melyn yn ymwneud ag argymhellion arfer gorau:**

Mae'r blwch coch hwn yn rhybuddio am risgiau a niwed posibl. 


Mae'r chwyddwydr yn cysylltu â rhagor o wybodaeth ac adnoddau 

## 1. Risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig

Mae mwy a mwy o bobl yn y DU yn cael triniaethau arbennig a all fod yn gysylltiedig â rhai risgiau iechyd. Cynhaliwyd adolygiad cyflym diweddar (Rhagfyr 2023) o heintiau sy'n gysylltiedig â'r arferion hyn gan Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gais Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer y cynllun trwyddedu gorfodol. Edrychwyd ar astudiaethau cyhoeddedig o 2015-2023 a ddisgrifiodd adweithiau niweidiol yn dilyn y triniaethau arbennig hyn. I weld yr adroddiad llawn, dilynwch y ddolen isod.

https://researchwalesevidencecentre.co.uk/cy/ThriniaethauArbennig

Y ddau fath o adwaith a nodwyd o'r adolygiad oedd heintiau a achoswyd gan ficro-organebau sy'n gysylltiedig ag aciwbigo, tyllu'r corff a thatŵio, gan gynnwys colur lled-barhaol ac, yn ail, adweithiau alergaidd / llidiol a welwyd ym mhob un o'r pedair triniaeth.  Dangosir crynodeb o bob triniaeth arbennig a risg haint ac alergedd isod.




[1] * **Sarcoidosis Croenol**: lympiau a bympiau ar y croen, mae'r rhain yn datblygu am lawer o resymau, dylai ymarferwyr gyfeirio cleientiaid at eu meddyg teulu.

Tynnodd negeseuon allweddol o'r adroddiad sylw at bwysigrwydd arferion atal a rheoli heintiau i atal heintiau rhag cael eu trosglwyddo a risgiau iechyd eraill y gellir eu lleihau fel arfer drwy'r arferion canlynol:

- Glanhau a chynnal a chadw'r amgylchedd, gan gynnwys gosodiadau a ffitiadau lle mae'r driniaeth arbennig yn cael ei chyflawni.

- Hylendid dwylo.

- Glanhau'r croen yn ddigonol drwy ddefnyddio diheintyddion cyn cyflawni'r driniaeth. Sicrhau bod y croen yn edrych yn lân.

- Gwell arferion dihalogi (gan gynnwys glanhau a sterileiddio).

- Sicrhau bod inciau/pigmentau a dŵr yn ddi-haint er mwyn osgoi halogiad.[2]

[2] Dylai inciau a phigmentau fod â dalen ddata cynnyrch i ddangos ansawdd, profi a rhestr o gynhwysion a allai achosi alergedd. Dylai ymarferwyr osgoi prynu inciau gan gyflenwyr nad ydynt yn gallu darparu dalen ddata o'r fath gan y gallant gynnwys metelau gwenwynig neu fod wedi'u halogi gan ficro-organebau.

## 2. Atal Heintiau

Mesurau atal a rheoli heintiau safonol yw'r arferion atal heintiau sylfaenol sydd eu hangen i leihau'r risg o haint. Nod defnyddio rhagofalon atal a rheoli heintiau safonol (SICPs) yw lleihau'r risg o drosglwyddo ffynonellau haint, a dylid eu defnyddio mewn perthynas â *phob triniaeth, gan bob ymarferydd, gyda phob cleient*. Mae hyn er mwyn sicrhau diogelwch p'un a yw'n hysbys a oes haint yn bresennol ai peidio, felly dylid defnyddio SICPs ar gyfer pob cyswllt â chleient.

### 2.1 Y Rhagofalon Atal a Rheoli Heintiau Safonol (SICPs)

- Asesu'r risg o haint (a nodwyd drwy'r ymgynghoriad â'r cleient)
- Hylendid dwylo
- Rheoli offer yn ddiogel, gan gynnwys dihalogi
- Rheoli'r amgylchedd yn ddiogel
- *Rheoli unrhyw lieiniau yn ddiogel [3]
- Gwaredu gwastraff yn ddiogel, gan gynnwys offer miniog a gollyngiadau
- Diogelwch galwedigaethol ymarferwyr (Feirysau a Gludir yn y Gwaed)
- Defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE)
- Hylendid anadlol a pheswch

Mae rhagor o wybodaeth am SICPs yn y Llawlyfr Cenedlaethol Atal a Rheoli Heintiau (NIPCM) yng Nghymru.

Mae SICPs a ddefnyddir yng nghyd-destun y driniaeth arbennig wedi'u haddasu o'r llawlyfr hwn mewn rhai adrannau.

Pennod 1 Rhagofalon Rheoli Heintiau Safonol (SICPs) - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

Bydd gan rai triniaethau arbennig elfen gynyddol o risg a bydd angen i ofynion IP&C fod yn gymesur â'r risg a nodwyd.

Bydd y defnydd o SICPs yn cael ei bennu gan y canlynol:

- Y dasg dan sylw, gan gynnwys maint a dyfnder yr anaf a achoswyd i'r croen a hyd y driniaeth.
- Maint y rhyngweithio â'r cleient (e.e. cyswllt agos, byr yn erbyn cyswllt agos estynedig).
- Y cysylltiad disgwyliedig â gwaed a hylif y corff yn ystod y driniaeth a maint y cysylltiad.
- Cymhlethdod y ddyfais neu'r offeryn a ddefnyddiwyd i gyflawni'r driniaeth a'r dihalogi dilynol (glanhau a sterileiddio)

Mae hyfforddiant gorfodol Lefel 2 IP&C a reoleiddir gan Gymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd yn orfodol i ymarferwyr. Gweler y ddolen isod am fanylion ac opsiynau ar gyfer cael mynediad i'r cwrs sydd ar gael.

RSPH | Dyfarniad Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig (safle allanol, Saesneg yn unig). Dylai'r canllaw hwn weddu i hyfforddiant gorfodol Lefel 2 IP&C; nid yw'n disodli'r hyfforddiant.

## 2.2 Micro-organebau sy'n gysylltiedig â haint a thriniaethau arbennig

Mae'r asiantau heintus cyffredin (micro-organebau) sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig yn cynnwys bacteria e.e. mycobacteria, *staphylococci*, *streptococci* a *pseudomonas,* feirysau gan gynnwys y rhai a gludir yn y gwaed (Hepatitis B, C a HIV) a ffyngau.

Yn ystod triniaeth arbennig, gellir cyflwyno haint o ddau fecanwaith:

1. Mae micro-organebau yn byw'n naturiol ar y croen a dim ond pan fydd y croen yn cael ei dorri drwy ei dyllu y byddant yn achosi problem. Mae hyn yn cynnwys heintiau â bacteria megis *streptococci, staphylococci,* a *pseudomonas.*

2. Gall micro-organebau nad ydynt yn byw ar y croen gael eu cyflwyno yn ystod y driniaeth drwy ddwylo halogedig, gan gynnwys dwylo mewn menyg a thrwy offer neu gyfarpar. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddiad drwy offer sydd wedi'u halogi â feirysau a gludir yn y gwaed os nad ydynt wedi'u sterileiddio'n iawn neu drwy ailddefnyddio eitemau untro.

## 2.3 Ymwrthedd i wrthfiotigau ac "arch-fygiau"

Mae atal haint drwy ddefnyddio SICPs yn hollbwysig. Mae gorddefnydd a defnydd amhriodol o wrthfiotigau yn golygu eu bod yn dod yn llai effeithiol, gan arwain at ymddangosiad "arch-fygiau". Dyma lle mae rhai straeniau o facteria wedi datblygu ymwrthedd i rai neu bob gwrthfiotig sy'n golygu bod heintiau'n dod yn anoddach eu trin. Gall heintiau ar ôl triniaeth amrywio o heintiau arwynebol i heintiau croen dwfn (lefel ddyfnach) neu sepsis sy'n cynnwys meinwe ac organau'r corff. Dylid nodi hefyd y gall pob gwrthfiotig achosi sgil-effeithiau, felly mae osgoi'r angen am wrthfiotigau drwy ddefnyddio SICPs yn effeithiol yn allweddol. Gall gwrthfiotigau hefyd niweidio'r bacteria da yn y perfedd a dim ond pan fo angen ac yn unol â chyfarwyddyd a chyngor darparwr gofal iechyd y dylid eu defnyddio.

## 2.4 Micro-organebau a'r gadwyn heintio


Nodau atal a rheoli heintiau yw defnyddio'r Rhagofalon Atal a Rheoli Heintiau Safonol a amlinellir uchod i ymyrryd â throsglwyddiad posibl a diogelu'r cleient a'r ymarferydd.

Fel y soniwyd, organ yw'r croen a dyma'r rhwystr allweddol i atal micro-organebau rhag mynd i mewn i'r corff. Unwaith y bydd y croen wedi'i dorri, gall micro-organebau fynd i mewn ac achosi haint. Mae pob un o'r triniaethau arbennig yn cynnwys tyllu'r croen, felly mae gan *bob* triniaeth risg bosibl o haint.

Mae lledaeniad clefyd yn cynnwys cadwyn o chwe cham, gan ddechrau gydag asiant heintus, sut y mae'n lledaenu o'r ffynhonnell a sut y mae'n heintio person arall. Mae chwe dolen yn y gadwyn a'r ffordd i atal trosglwyddiad yw torri'r dolenni. Gall torri'r gadwyn gynnwys hylendid dwylo, glanhau'r amgylchedd, sterileiddio offer neu ddefnyddio eitemau untro.

Mae'r diagramau canlynol (2.4.1 a 2.4.2) yn rhoi enghreifftiau o'r gadwyn heintio ar gyfer sawl organeb a sut y gellir eu hosgoi drwy dorri'r dolenni yn y gadwyn.


2.4.1 Enghraifft o'r gadwyn heintio sy'n gysylltiedig â *Staphylococcus aureus* (bacteria sy'n byw ar y croen a philenni mwcaidd)




**Enghreifftiau o ymyriadau i dorri'r gadwyn:**

- Hylendid dwylo
- Gorchuddio clwyfau ar ddwylo
- Glanhau a diheintio offer
- Glanhau arwynebau a'r amgylchedd

2.4.2 Enghraifft o'r gadwyn heintio sy'n gysylltiedig â'r feirws Hepatitis B / Hepatitis C neu HIV (feirysau a gludir yn y gwaed)




**Enghreifftiau o ymyriadau i dorri'r gadwyn:**

- Defnyddio menyg a PPE priodol ar gyfer pob cyswllt â gwaed a hylif y corff.
- Arferion diogel mewn perthynas â nodwyddau ac offer miniog i osgoi anaf.
- Sterileiddio offer sy'n dod i gysylltiad â gwaed/meinwe.
- Eitemau untro (e.e. nodwyddau).
- Gorchuddio clwyfau
- Brechlyn Hepatitis B.

3. Cynnydd yn nifer yr heintiau neu frigiad posibl o achosion, beth ddylech chi ei wneud

Os bydd ymarferydd yn sylwi bod [4]*mwy o heintiau yn gysylltiedig â'i fangre, dylai sicrhau bod pob cleient yr effeithir arno wedi ymweld â'i feddyg teulu am unrhyw gyngor neu driniaeth feddygol.

Dylai'r ymarferydd gysylltu â swyddog arweiniol yr awdurdod lleol/tîm diogelu iechyd lleol. I gael manylion am sut i gysylltu, dilynwch y ddolen isod:

AWARe/ Tîm Diogelu Iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

Bydd swyddogion yr Awdurdod Lleol yn gallu adolygu'r sefyllfa a pharhau i gefnogi'r ymarferydd os cadarnheir brigiad o achosion. [3]

Mae'r adrannau canlynol yn ymdrin â'r rhagofalon atal a rheoli heintiau safonol (SICPs) sy'n berthnasol i driniaethau arbennig. Dyma'r mesurau atal a rheoli heintiau sy'n angenrheidiol i leihau'r risg o drosglwyddo asiantau heintus.

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r amodau yn Atodlen 3, Rheoliad 7 (3) Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024:**

Amod 5: Arferion diogelwch a hylendid deiliad y drwydded
**Atodlen 4**, Rheoliad 7(4) Aciwbigo Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024
Amod 2

[3] *Diffinnir brigiad o achosion fel dau neu fwy o gleientiaid â haint sy'n gysylltiedig â'r driniaeth arbennig o fewn cyfnod penodol o amser ac yn yr un fangre

## 4. Hylendid dwylo i ymarferwyr

Hylendid dwylo yw'r mesur mwyaf effeithiol i leihau trosglwyddiad micro-organebau heintus sy'n achosi haint. Mae dau ddull y gellir eu defnyddio:

| Dull[4] | Pryd i'w ddefnyddio |
|---|---|
| 1. Sebon hylifol a dŵr | Pan fydd dwylo i weld yn fudr<br>Pan y gall dwylo fod wedi'u halogi â gwaed, hylifau'r corff neu groen neu bilenni mwcaidd nad ydynt yn gyflawn (e.e. trwyn neu geg) |
| 2. Rhwbiad dwylo seiliedig ar alcohol | Ym mhob sefyllfa arall |

Mae priodweddau glanedydd sebon yn galluogi gwaredu micro-organebau ar y dwylo a godwyd yn ystod y dydd, ynghyd â baw a deunydd organig.

Dylai ewinedd fod yn lân ac ni ddylid gwisgo ategolion ewinedd na sglein ewinedd. Mae ewinedd acrylig yn dal mwy o facteria nag ewinedd naturiol a gall ewinedd gel llaw fod yn anoddach eu glanhau. Mae baich bacteria yn cynyddu gydag amser o dan ewinedd ac mae risg hefyd gydag ategolion ewinedd.

Gall modrwyau a gemwaith llaw fod yn gartref i facteria hefyd, a gall gemwaith â cherrig neu emwaith siâp afreolaidd rwygo menyg.

Gellir gwisgo modrwy band sengl ond dylid tynnu pob darn o emwaith a wats er mwyn golchi dwylo'n iawn.

Pryd i gyflawni hylendid dwylo:

- Cyn cyffwrdd â'r cleient
- Cyn cyflawni'r driniaeth
- Ar ôl cyflawni'r driniaeth
- Yn syth ar ôl dod i gysylltiad â gwaed, hylifau'r corff a chroen nad yw'n gyflawn

Sefyllfaoedd eraill pan ddylid cynnal hylendid dwylo:

[4] Ffynhonnell: NIPCM

- Cyn ac ar ôl bwyta
- Ar ôl defnyddio'r toiled
- Cyn sefydlu'r weithfan a chasglu offer ac offerynnau
- Ar ôl trin offerynnau a ddefnyddiwyd yn ystod y driniaeth

Dylid cynnal hylendid dwylo *yn syth* cyn gwisgo menyg ac *yn syth* ar ôl tynnu menyg.

## 4.1 Sut i olchi dwylo

Dim ond ar gyfer hylendid dwylo y dylid defnyddio basnau golchi dwylo. Ni ddylid eu defnyddio i lanhau offer neu i waredu gwastraff neu hylifau, gan gynnwys dŵr gwastraff ar ôl glanhau, gan y gall hyn arwain at halogi'r basn golchi dwylo.

Cyn golchi dwylo gyda dŵr a sebon:

- Gofalwch nad yw blaenau’r breichiau wedi'u gorchuddio er mwyn glanhau'r dwylo a'r arddyrnau.
- Tynnwch emwaith a watsiau (mae modrwy band sengl yn dderbyniol).
- Dylai ewinedd fod yn lân ac yn fyr, heb estyniadau ac addurniadau ewinedd.
- Dylai toriadau a chrafiadau fod wedi'u gorchuddio â dresin gludiog sy'n dal dŵr.

Y camau tuag at hylendid dwylo gyda dŵr a sebon

1. Gwlychwch eich dwylo gyda dŵr cynnes sy'n llifo.
2. Defnyddiwch sebon hylifol o beiriant i orchuddio pob arwyneb llaw.
3. Rhwbiwch eich dwylo gyda'i gilydd gan roi sylw i flaenau'r bysedd, y bodiau a rhwng y bysedd. Mae'n cymryd 15 i 30 eiliad i sicrhau hylendid dwylo.
4. Dylid rinsio'r dwylo gyda dŵr cynnes sy'n llifo (gall dŵr poeth gynyddu'r risg o ddermatitis)
5. Sychwch eich dwylo'n drylwyr gyda thywelion papur o beiriant sydd wedi'i osod ar y wal, dyma'r dull a ffefrir ar gyfer sychu dwylo.

6. Ni ddylid defnyddio dwylo i droi tapiau i ffwrdd er mwyn osgoi halogi, gallwch ddefnyddio eich penelin/troed neu ddefnyddio tywel papur untro i droi'r tap i ffwrdd.

7. Yna, dylid rhoi tywelion papur mewn bin a weithredir gan bedal ac ni ddylid eu hailddefnyddio.

*Gweler posteri ar dechneg hylendid dwylo yn atodiad 14.3 a 14.4*

### 4.2 Rhwb dwylo seiliedig ar alcohol ac ôl-ofal

Nid yw rhwbiau dwylo seiliedig ar alcohol yn cymryd lle golchi dwylo gyda dŵr a sebon hylifol. Dylai rhwbiau dwylo seiliedig ar alcohol gynnwys 62-90% o alcohol yn ôl cyfaint i fod yn effeithiol.

- Lle nad ydych chi wedi dod i gysylltiad â gwaed a hylifau'r corff ac nad yw eich dwylo i weld yn fudr, gellir defnyddio rhwbiau dwylo seiliedig ar alcohol gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar gyfer faint sydd ei angen ac am ba hyd y dylech chi rwbio.

- Bydd rhifau BS EN ar label y cynnyrch yn amlinellu profion cynhyrchion yn erbyn amrywiaeth o organebau a dylent gynnwys gweithgarwch yn erbyn bacteria, feirysau, ffyngau a burumau.

Dim ond un person ddylai ddefnyddio tiwbiau a photiau ac ni ddylid eu rhannu i atal croes-halogi.

Dylid gwaredu tiwbiau a photiau gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Ar gyfer unrhyw bryderon ynghylch dermatitis, dylai'r ymarferydd gysylltu â'i feddyg teulu.

*Dylid defnyddio hufenau llaw / meddalyddion croen ar y dwylo i'w hamddiffyn rhag sychu.*

### 4.3 Basnau golchi dwylo (WHBs) yn y man gwaith triniaethau arbennig

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r amodau yn Atodlen 3, Rheoliad 11 (2) Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Triniaethau Arbennig a Gymeradwywyd (Cymru) 2024:**

Amod 3: Materion sy'n ymwneud ag arddangos hysbysiadau a mynediad cyfyngedig.
Amod 4: Dyluniad, strwythur a'r amgylchedd ffisegol.

Rhaid bod o leiaf un basn hawdd ei gyrraedd yn y Man Gwaith Triniaethau Arbennig (SPWA) sydd ar gyfer hylendid dwylo yn benodol. Bydd nifer yr basnau yn yr SPWA yn dibynnu ar nifer y gweithfannau a gallu ymarferwyr i gael mynediad parod at y basn heb gynyddu'r risg o groeshalogi neu amharu ar y llif gwaith budr i lân. Gweler yr adran ar ddylunio a strwythur yma am ragor o wybodaeth.

Mae basnau dwylo golchi (WHBs) yn chwarae rhan hanfodol mewn atal a rheoli heintiau ac maen nhw'n gallu bod yn ffynhonnell drosglwyddo os oes perygl i ddŵr sy'n tasgu halogi arwynebau. Bydd defnyddio'r basn ar gyfer gwaredu dŵr gwastraff / hylifau yn arwain at halogi'r basn. Mae bacteria yn tyfu mewn sinciau (o amgylch pibellau U yn benodol) ac nid oes modd eu gwaredu, hyd yn oed trwy

ddiheintio. Dylai mangreoedd waredu dŵr gwastraff o bob math i mewn i allfa ar wahân neu sinc “budr” penodedig.

Dylai cyfleusterau golchi dwylo gynnwys:

- Cyflenwad o ddŵr rhedegog (poeth ac oer neu gymysg).
- Basn a ddefnyddir at ddibenion golchi dwylo yn unig ac nid ar gyfer glanhau cyfarpar/gwagio gwastraff hylif neu ar gyfer dŵr yfed. Nid yw powlen o ddŵr yn ddewis amgen gan fod angen rhoi dwylo o dan ddŵr rhedegog.
- Dylai basn fod ar gael yn rhwydd i'r weithfan a chael ei leoli yn y man gwaith triniaethau arbennig.
- Dylai'r basn fod o leiaf metr i ffwrdd o safle’r driniaeth er mwyn sicrhau nad yw dŵr sy'n tasgu o'r sinc yn halogi arwynebau.
- Ni ddylai'r basn fod yn gyfagos i sinciau a ddefnyddir ar gyfer glanhau a dihalogi offerynnau.
- Sebon hylif neu ewyn ac nid sebon bar, a chyflenwad o dyweli papur ar gyfer sychu dwylo. Bydd sebon bar yn cael ei halogi.
- Yn ddelfrydol, dylid gosod sebon hylif ar wal. Gall hylif diheintio dwylo ag alcohol fod ar gael mewn peiriannau pwmp.
- Dylai peiriant tyweli papur wedi'i osod ar wal fod yn agos at y basn golchi dwylo.
- Ar gyfer tapiau nad oes ganddynt liferi neu synhwyrydd/tapiau a weithredir gan draed, dylid defnyddio tywel papur i ddiffodd y tap. Dylid defnyddio tywel papur untro, a'i waredu wedyn.
- Dim plygiau neu orlifiadau sy'n annog defnydd amhriodol (llenwi'r sinc ar gyfer golchi).

Ni ddylid lleoli’r tap dŵr yn union uwchben y draen (twll plwg). Yn hytrach, dylai fod ychydig i un ochr i osgoi tasgu dŵr ar yr ardal amgylchynol.

Wrth lanhau’r basn golchi dwylo, mae powlen y basn fel arfer wedi’i halogi’n fwy na allfeydd y tapiau. Os byddwch yn glanhau’r bowlen yn gyntaf ac yna’n defnyddio’r un clwtyn ar y tapiau, efallai y byddwch yn trosglwyddo bacteria o’r basn brwnt i’r tapiau – lle mae dwylo a dŵr yn dod i gyswllt uniongyrchol. Defnyddiwch glwtyn glân ar wahân ar gyfer y tapiau i osgoi croeshalogi a lleihau’r risg o haint.

Nid oes angen sebon gwrthfacterol ar gyfer hylendid dwylo, ac mae'n gallu tarfu ar PH arferol y croen ac amddiffyniad naturiol. Mae hylif diheintio’n gymorth golchi dwylo a dim ond pan fydd y dwylo'n edrych yn lân ac nad ydynt wedi dod i gysylltiad â gwaed neu hylifau'r corff y dylid ei ddefnyddio.

## 4.4 Unedau Golchi Dwylo Cludadwy

*Dim ond pan nad oes plymwaith addas ar gael y dylid defnyddio unedau golchi dwylo cludadwy.*

Os defnyddir unedau golchi dwylo cludadwy, mae angen dilyn y drefn cynnal a chadw yn ofalus gan eu bod yn gallu cynnwys bacteria a gludir gan ddŵr, yn enwedig os oes ganddynt dap chwistrellu. Rhaid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr mewn perthynas â glanhau bob dydd gan gynnwys draenio'r cynhwysydd dŵr, fflysio'r cynhwysydd gwastraff gyda dŵr ffres, ail-lenwi, llwyrlanhau a sychu'r arwynebau. Bydd angen diheintio'r uned hefyd yn unol â'r cyfarwyddiadau. Oni wneir hyn, mae dŵr llonydd yn gallu achosi heintiau, ac mae angen ffynhonnell dŵr ffres ar gyfer ail-lenwi. Rhaid cadw cofnodion cynnal a chadw a gwasanaethu sy'n dangos defnydd priodol at ddibenion archwilio ac arolygu.

Byddai sinc wedi'i blymio'n barhaol yn lliniaru neu'n dileu'r risg o halogiad yn sylweddol.

Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud ag atal trosglwyddiad heintiau yn ystod y driniaeth arbennig, a byddant yn cynnwys y dull a argymhellir o baratoi'r croen, defnyddio cynhyrchion a'r dechneg a ddefnyddir trwy gydol y driniaeth er mwyn osgoi halogiad.

5. Paratoi'r croen a gwrth-sepsis cyn y driniaeth arbennig

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r amodau yn Atodlen 3, Rheoliad 7 (3) o Reoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024:**

Amod 5: Arferion diogelwch a hylendid deiliad y drwydded

Gwrth-sepsis yw dinistrio micro-organebau o'r croen trwy ddefnyddio hydoddiannau cemegol.

Mae angen archwilio croen y cleient yn weledol cyn y driniaeth; mae'r croen yn organ ac os yw'n cael ei dorri, gallai micro-organebau fynd i mewn i'r croen ac achosi haint.

Cyn y driniaeth, er mwyn tynnu bacteria o groen y cleient, mae'n bwysig sicrhau bod y croen yn lân. Bydd hyn yn lleihau'r risg o haint ar y fan ar ôl y driniaeth. Dylid sicrhau hylendid dwylo cyn gwisgo menyg yn union cyn y driniaeth.

Bydd y dewis o antiseptig yn dibynnu ar unrhyw alergeddau sydd gan y cleient a nodwyd yn yr ymgynghoriad â'r cleient (e.e. alergedd clorhecsidin) ac ystyriaethau eraill yn ymwneud â'r driniaeth, fel hyd a maint ardal y croen lle mae'r driniaeth yn digwydd. Argymhellir y canlynol:

1. Defnyddiwch becyn sengl mawr o hylif diheintio dwylo sy'n cynnwys 70% alcohol isopropyl er mwyn diheintio ardal y croen yn gemegol gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Dylai hyn gynnwys yr amser y mae angen i'r antiseptig fod mewn cysylltiad â'r croen a'i adael i sychu er mwyn gweithio. Peidiwch â sychu â lliain.[5]

2. Fel arall, er mwyn cael effaith antiseptig hirach, gellir ystyried defnyddio dodwyr untro sy'n seiliedig ar alcohol gyda 2% o glwconad clorhecsidin mewn 70% o alcohol.[6]

Ym maes gofal iechyd, dangoswyd bod clorhecsidin mewn alcohol yn gysylltiedig â'r nifer isaf o achosion o heintiau clwyfau llawfeddygol o'i gymharu â deunyddiau gwrthseptig eraill. Gweler canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) isod ac ar gyfer dewisiadau antiseptig amgen:

Trosolwg | Heintiau clwyfau llawfeddygol: atal a thrin | Canllawiau | NICE (safle allanol, Saesneg yn unig)

[5] Mae alcohol ar ei ben ei hun yn lladd amrywiaeth o facteria ac eithrio rhai sborau a rhai firysau. Mae'n torri cysylltiadau protein ond nid yw'n para'n hir. Ni ddylid defnyddio hydoddiannau sy'n seiliedig ar alcohol ar gyfer pilenni mwcaidd oherwydd y risg o losgiadau.

[6] Mae clorhecsidin yn tarfu ar gellfur micro-organebau, yn lladd bacteria ac yn para am gyfnod hir (6 awr). Mae dodwyr untro ar gael mewn cyfeintiau gwahanol.

Nid yw diheintyddion ffenolig yn addas at ddefnydd antiseptig ar groen oherwydd pryderon diogelwch ac nid yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn eu hargymell.

Ffenol: trosolwg tocsicolegol - GOV.UK (safle allanol, Saesneg yn unig)

**RHAID** dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr yn ymwneud â **rhybuddion** a **rhagofalon** a sut i ddefnyddio unrhyw ddeunydd gwrthseptig. Dylai ymarferwyr wirio pa fannau ar y croen i'w hosgoi a gwirio fflamadwyedd cynhyrchion.

Nid yw poteli chwistrellu aml-ddefnydd o ddeunydd gwrthseptig y croen yn cael eu hargymell oherwydd eu bod yn gallu mynd yn halogedig, ac mae'n gallu bod yn anodd glanhau ffroenellau.

*Os ydych yn arllwys hydoddiant i mewn i botiau, dylech ddefnyddio potiau untro yn unig.*

## 5.1 Trin a defnyddio cynhyrchion i'w defnyddio ar y croen

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r Amodau yn Atodlen 3, Rheoliad 7 (3) o Reoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024**

Amod 5: Arferion diogelwch a hylendid deiliad y drwydded
Amod 7: Offer ac offerynnau

Atodlen 5, Rheoliad 7 (4) Tyllu'r Corff
Amod 8:

Atodlen 7, Rheoliad 7 (4) Tatŵio
Amod 5:
Amod 6:

Unwaith y mae'r croen wedi'i baratoi, dylid cymryd gofal i osgoi ei ail-halogi trwy gyswllt â'r dwylo, yr offer neu drwy ddefnyddio cynhyrchion sydd wedi'u hagor fel eli, hufenau a jeli.

- Os ydych chi'n defnyddio papur copi carbon ar gyfer amlinellu dyluniadau ar gyfer tatŵio, dylech gadw'r papur mewn amgylchedd glân a sych er mwyn osgoi halogiad gan lwch.

- I farcio'r croen, defnyddiwch bensiliau untro neu bensiliau'r cleientiaid eu hunain e.e. pensiliau aeliau ar gyfer colur lled-barhaol. Ni ellir diheintio pensiliau yn ddibynadwy. Gall dewisiadau amgen hefyd gynnwys pensiliau mecanyddol y gellir eu hail-lenwi gydag phigau tafladwy.

- Er mwyn marcio'r croen ar gyfer tyllu cosmetig, gellir defnyddio deintbig wedi'i drochi mewn ysgrifbin / inc a'i ddotio ar y croen. Rhaid gwaredu'r deintbig (untro) neu ddefnyddio marciwr tafladwy y gellir ei roi i'r cleient wedyn.

- Dylid labelu hufenau / trwythau a jeli gan nodi'r dyddiad agor, a'u rhoi mewn potiau llai o ran maint ar gyfer pob cleient gan ddefnyddio sbatwla untro. Rhaid ailosod caeadau yn gyflym er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu halogi wrth ddod i gysylltiad â'r aer. Os oes gan y cleient bresgripsiwn ar gyfer hufen anaesthetig argroenol, rhaid i'r cleient ei hun roi'r hufen ar y croen ac ni ddylid ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw gleient arall.

- Bydd menyg yn cael eu halogi yn ystod y driniaeth gan waed a hylif y corff a thrwy gyffwrdd ag arwynebau halogedig. Dylid tynnu menyg cyn cyffwrdd â chynwysyddion hufen a jeli yn ystod y driniaeth.

Unwaith y mae'r croen wedi'i baratoi, mae'n bwysig nad yw proses y driniaeth arbennig yn rhoi cyfle i ailgyflwyno micro-organebau, a gellir cyflawni hyn trwy ddefnyddio techneg ddi-gyffwrdd drwyddi draw. Mae'r dull hwn yn cael ei ddisgrifio yn fanylach isod.

### 5.2 Fframwaith Techneg Aseptig Di-gyffwrdd (ANTT®)

Fframwaith ymarfer unigryw ar gyfer techneg aseptig yw Techneg Aseptig Di-Gyffwrdd, ac mae'n cael ei defnyddio'n eang yng Nghymru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac yn rhyngwladol er mwyn amddiffyn cleientiaid rhag cael eu heintio yn ystod triniaethau mewnwthiol.

Asepsis yw nod ANTT, ac mae'n ymwneud â sicrhau bod 'Man Allweddol' (croen) triniaeth y cleient a 'Rhannau Allweddol' pwysig offer y driniaeth “yn rhydd o organebau niweidiol” (Gweler Ffigurau A isod ac Atodiad 14.5).

Ceir dau fath o ANTT:

1. ANTT Safonol ar gyfer arferion llai cymhleth fel triniaethau arbennig

2. ANTT Llawfeddygol ar gyfer triniaethau cymhleth fel llawdriniaeth mewn ysbyty

Mae dau brif gam i ddarparu ANTT Safonol

**1. Paratoi**

Mae'r risg o ficro-organebau niweidiol yn halogi'r driniaeth yn cael ei lleihau i ddechrau trwy roi rhagofalon atal a rheoli heintiau safonol ar waith.

**2. Techneg y Driniaeth**

Yn ystod triniaethau arbennig, mae'n hanfodol nad yw'r croen sydd wedi'i baratoi a'r Rhannau Allweddol o offer di-haint yn cael eu cyffwrdd yn uniongyrchol. Cyflawnir hyn trwy wneud y canlynol:

- Defnyddio techneg di-gyffwrdd er mwyn peidio â chyffwrdd â'r 'Rhannau Allweddol' yn ymwneud â'r driniaeth (e.e. nodwyddau a gemwaith).
- Defnyddio techneg ddi-gyffwrdd er mwyn peidio â chyffwrdd â 'Safleoedd Allweddol' (e.e. ardaloedd y croen penodedig sydd wedi'u diheintio).

Er mwyn amddiffyn Rhannau Allweddol fel nodwyddau, ni ddylent gael eu cyffwrdd yn uniongyrchol gan ddwylo (gan gynnwys dwylo mewn menyg) na'u rhoi ar arwynebau halogedig ar ôl eu tynnu o ddeunydd pacio di-haint.

Pan nad yw Rhannau Allweddol (nodwyddau ac offer miniog) yn cael eu defnyddio, dylid eu dychwelyd yn ofalus i'w deunydd pacio di-haint a agorwyd yn ddiweddar (Maes Aseptig Micro-gritigol). Dylai Rhannau Allweddol ddod i gysylltiad ag ardal y croen sydd wedi'i baratoi yn unig (Man Allweddol). Gweler ffigur A isod.

Os nad oes modd rhoi'r driniaeth heb gyffwrdd â'r Rhannau Allweddol yn uniongyrchol, dylid ystyried ANTT Llawfeddygol. Mae modd rhoi triniaethau arbennig bron bob amser trwy ddefnyddio ANTT Safonol - mae rhagor o wybodaeth ar gael o'r wefan isod.

www.antt.org (safle allanol, Saesneg yn unig)

Mae gan wahanol driniaethau arbennig nodweddion gwahanol, ond mae'r egwyddorion ANTT yr un fath, ac mae'r broses yn debyg ar gyfer pob triniaeth o'r fath fel yr amlinellir yn gryno isod.

Gan ystyried presenoldeb parhaus micro-organebau niweidiol, rhaid i ymarferwyr sicrhau gweithfan a man gwaith triniaeth arbennig sy'n ddiogel a sicrhau bod y bacteria ar eu dwylo'n cael eu lleihau i isafswm. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynrychioli 'pontio' pwysig gan yr ymarferydd o weithgareddau gwaith arferol o ddydd i ddydd, lle mae micro-organebau'n cael eu caffael trwy gyffwrdd â'r amgylchedd, i roi triniaeth fewnwthiol i gleient lle mae angen lleihau micro-organebau er mwyn lleihau'r posibilrwydd o haint.

Ffigur A. Enghraifft o drefniadau ar gyfer Triniaeth Arbennig gan ddefnyddio ANTT Safonol (tyllu).




5.2.1 Paratoi'r Driniaeth

Mae'n rhaid i'r ymarferydd sicrhau gweithfan a man gwaith triniaeth arbennig sy'n ddiogel a sicrhau bod cyn lleied o facteria ar ei ddwylo â phosibl.

- Paratoi a dileu unrhyw risg amgylcheddol (sicrhau bod yr ardal yn lân, yn sych ac yn ddiogel).

- Golchi dwylo, glanhau a diheintio arwynebau'r driniaeth a / neu hambyrddau'r driniaeth gan ddefnyddio cyfryngau glanhau priodol, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

- Tra bod yr arwynebau'n sychu, dylid casglu'r holl offer a chyflenwadau angenrheidiol.

- Dylai'r croen fod yn lân ac wedi'i ddiheintio lle dangosir hynny, gan ddefnyddio diheintydd croen priodol (fel y disgrifir uchod yn yr adran ar wrth-sepsis).

- Dylid glanhau'r dwylo (gweler yr adran ar hylendid dwylo) gan ddefnyddio dŵr a sebon neu hylif diheintio dwylo.

- Dylid gwisgo menyg ansteril i amddiffyn yr ymarferydd rhag dod i gysylltiad posibl â gwaed neu hylifau'r corff.

- Nodwch yr holl rannau allweddol a mannau allweddol-mae hyn yn cynnwys nodwyddau di-haint a'r ardal o amgylch man y driniaeth.
  Paratowch yr offer yn ôl yr angen.

- Defnyddiwch eitemau wedi’u diheintio ar unwaith – peidiwch â’u rhoi i lawr, a pheidiwch â gadael iddyn nhw ddod i gysylltiad ag unrhyw beth nad yw wedi'i ddiheintio cyn eu defnyddio/mewnosod.

- Wrth drin a thrafod offer, dylid defnyddio'r dechneg ddi-gyffwrdd er mwyn sicrhau nad yw'r Rhan Allweddol yn cael ei halogi.

- Pan nad yw offer yn cael ei ddefnyddio, dylid amddiffyn y Rhannau Allweddol trwy ddefnyddio Meysydd Aseptig Micro-gritigol (fel arfer, y tu mewn i ddeunydd pacio di-haint a agorwyd yn ddiweddar).

- Os yw dwylo neu ddwylo sy'n gwisgo menyg yn cael eu halogi yn ystod y driniaeth, dylid atal y driniaeth dros dro, golchi'r dwylo eto a defnyddio menyg newydd.

- Dylid gwaredu'r holl offer miniog yn ddiogel mewn cynhwysydd anhyblyg, melyn gyda chaead oren (gweler yr adran ar wastraff).

- Dylid glanhau a diheintio unrhyw offer y gellir ei ailddefnyddio fel hambyrddau triniaeth.

- Dylid diheintio arwynebedd y driniaeth.

- Dylid tynnu’r menyg a glanhau'r dwylo ar unwaith.

5.2.2 Crynodeb o Bwyntiau Allweddol Techneg y Driniaeth

1. Nodwch holl Rannau Allweddol a Safleoedd Allweddol y driniaeth, gan gynnwys nodwyddau di-haint a'r ardal o amgylch safle'r driniaeth.
2. Paratoi'r offer yn ôl yr angen.
3. Ni ddylid gosod unrhyw nodwydd, gemwaith neu offeryn untro sydd wedi'u diheintio ar arwyneb gwahanol cyn eu mewnosod. Ni ddylai min neu siafft y nodwydd, yr offeryn na'r gemwaith ddod i gysylltiad ag unrhyw beth nad yw wedi'i ddiheintio cyn eu defnyddio ar y cleient.
4. Wrth drin a thrafod offer, dylid defnyddio'r dechneg ddi-gyffwrdd er mwyn sicrhau nad yw'r Rhan Allweddol yn cael ei halogi.
5. Pan nad yw offer yn cael ei ddefnyddio, dylid amddiffyn Rhannau Allweddol trwy eu dychwelyd yn ofalus i'w deunydd pacio di-haint a agorwyd yn ddiweddar.
6. Os yw dwylo neu ddwylo sy'n gwisgo menyg yn cael eu halogi yn ystod y driniaeth, dylid atal y driniaeth dros dro, golchi'r dwylo eto a defnyddio menyg newydd.

6. Inciau a phigmentau yn ymwneud â thatŵio a cholur lled-barhaol (SPMU)

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r Amodau yn Atodlen 7, Rheoliad 7 (4) o Reoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024:**

Amodau: 7, 8, 9

Yn y DU, mae inciau tatŵ a cholur parhaol yn cael eu rheoleiddio o dan UK REACH, sy'n cyfyngu ar y defnydd o sylweddau peryglus gan gynnwys carsinogenau, mwtagenau, sensitifyddion croen a llidwyr. Nododd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), sy'n gweithredu fel Asiantaeth UK REACH, risgiau sy'n gysylltiedig ag amlygiad mewngroenol i bigmentau cemegol ac argymhellodd fesurau cyfyngu. Mabwysiadwyd y rheolaethau hyn yn ffurfiol gan Lywodraeth y DU i leihau risgiau iechyd dynol o inciau tatŵ a SPMU.

Cyfyngiad UK REACH ar gyfer inciau tatŵ a cholur parhaol, 30 Rhagfyr 2025 - GOV.UK (safle allanol, Saesneg yn unig)
Cyfyngiad REACH ar sylweddau mewn inciau a ddefnyddir ar gyfer tatŵio a cholur parhaol - Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch – Man Dinasyddion (safle allanol, Saesneg yn unig)

Mae dŵr nad yw'n ddi-haint a ddefnyddir i wanedu inciau a phigmentau neu i rinsio offer yn ystod y driniaeth yn gallu achosi halogiad â micro-organebau sy'n arwain at haint, a'r enghraifft amlycaf o hyn yw achosion ledled y byd o haint croen mycobacteriol nad yw'n dwbercylaidd megis *Mycobacterium chelonae*. Mae'n anodd iawn trin yr heintiau hyn ac mae angen defnyddio gwrthfiotigau am gyfnod hir sy'n arwain at sgil-effeithiau i'r cleient.  Bydd inciau a phigmentau sydd wedi'u gwanedu ymlaen llaw yn lleihau'r risg hon. Rhaid defnyddio dŵr di-haint ym mhob achos o wanedu neu fflysio.

Unwaith y bydd cynwysyddion di-haint yn cael eu hagor, bydd dŵr, inciau a phigmentau di-haint yn cael eu halogi. Gellir lleihau hyn trwy brynu cyfeintiau llai, nodi'r dyddiad agor ar label, a gwaredu'r deunydd pan ddaw ei oes silff i ben, ar ôl ei agor. Dylid storio inciau a phigmentau yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

## 6.1 Ansawdd dŵr

Fel arfer, mae dŵr yn cynnwys llond llaw o amhureddau, parasitiaid a micro-organebau.

Peidiwch â cheisio gwneud dŵr di-haint. Nid yw trin dŵr tap trwy ferwi, hidlo, distyllu, awtoclaf, neu ddulliau cemegol yn bodloni safonau diheintio ac mae'n anniogel ar gyfer defnydd clinigol, waeth beth fo'r gost neu argaeledd.

Mae brigiadau o achosion sy'n gysylltiedig â gofal iechyd wedi cael eu cysylltu â:

- Ffynonellau dŵr "di-haint" byrfyfyr
- Cynwysyddion halogedig
- [7]Ffurfiad bioffilm mewn dŵr "wedi'i drin" a storiwyd

Y Gwahaniaeth Rhwng Dŵr Di-haint, Dŵr Distyll a Dŵr nad yw'n Ïonediddiedig (theberkey.com) (safle allanol, Saesneg yn unig)

7. Defnyddio a dewis cyfarpar diogelu personol (PPE)

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r Amodau yn Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024:**

Atodlen 4 Rheoliad 7 (4): Aciwbigo
Amod 3

Atodlen 5, Rheoliad 7 (4) Tyllu'r corff
Amodau 2,3,4

Atodlen 6, Rheoliad 7 (4) Electrolysis
Amodau 2,3

Atodlen 7, Rheoliad 7 (4) Tatŵio

Dylid defnyddio cyfarpar diogelu personol pan fydd cyswllt neu gyswllt disgwyliedig â gwaed a hylif y corff neu groen nad yw'n gyflawn/pilenni mwcaidd fel y trwyn / clust / ceg / man preifat.


7.1 Menyg

Dylid gwisgo menyg sy'n ffitio'n dda wrth ddod i gysylltiad â gwaed, hylifau'r corff, croen nad yw'n gyflawn, briwiau croen, pilenni mwcaidd, a chyfryngau glanhau cemegol (Gweler 7.1.1 isod). Nid yw menyg polythen yn addas ar gyfer unrhyw driniaeth arbennig.

Nid oes angen i fenyg fod yn ddi-haint. Fodd bynnag, dylid defnyddio Techneg Aseptig Di-gyffwrdd wrth drin eitemau ac offer di-haint ac wrth ddarparu unrhyw driniaeth arbennig. Cofiwch, nid yw menyg yn disodli'r angen am hylendid dwylo, ac maen nhw'n gallu trosglwyddo heintiau (gweler yr adran ar ddewis menyg am gyngor ar lanhau).

[7] Mae bioffilm yn haen amddiffynnol a ffurfir gan facteria ar arwynebau gwlyb sy'n caniatáu i germau oroesi a lluosi

7.1.1 Y broses dewis menyg




Addaswyd o NIPCM Atodiad 5 - siart defnyddio a dewis menyg.

Dylai menyg fod yn fenyg untro ac mae angen eu newid yn yr amgylchiadau canlynol:

- Rhwng cleientiaid
- Os ydynt yn cael eu rhwygo, eu difrodi neu eu halogi trwy disian neu besychu
- Triniaethau gwahanol ar wahanol rannau o'r corff
- Yn syth cyn ac ar ôl y driniaeth
- Pan fydd saib yn y driniaeth sy'n golygu bod angen tynnu'r menyg h.y. defnyddio'r toiled/bwyta

Nid oes angen gwisgo menyg yn yr amgylchiadau canlynol:


- Lle nad oes cyswllt na chyswllt disgwyliedig â gwaed neu hylif y corff
- Wrth gynnal ymgynghoriad â chleient (holiadur), cwblhau tasgau gweinyddol, defnyddio cyfrifiadur neu ddyfeisiau
- Trafod cyngor ôl-ofal
- Paratoi'r weithfan
- Cerdded o amgylch ardal y driniaeth
- Gwneud diodydd

### 7.1.2 Storio menyg


Gall menyg gael eu halogi gan yr amgylchedd neu os ydynt yn cael eu rhoi mewn pocedi neu eu gadael ar arwyneb. Dylid storio cyfarpar diogelu personol o bob math yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr gan ystyried tymheredd a glendid y lle storio.

Ni ddylech dynnu menyg o'r blwch menyg nes eich bod yn barod i'w gwisgo. Dylid cyflawni'r broses hylendid dwylo ar ôl tynnu'r menyg. Gweler y wybodaeth isod am gamau gwisgo menyg i leihau halogiad.

### 7.1.3 Sut i wisgo menyg



7.1.4 Sut i dynnu menyg yn ddiogel er mwyn osgoi halogi dwylo



### 7.1.5 Menyg latecs

O ystyried y risg o alergedd mewn ymateb i ddefnyddio menyg latecs rwber naturiol (NRL), mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn nodi bod yn rhaid i fenyg latecs tafladwy fod yn fenyg protein isel sy'n rhydd o bowdr yn dilyn asesiad o alergedd latecs posibl y cleient neu'r ymarferydd. Os oes amheuaeth o alergedd latecs neu os oes alergedd latecs wedi'i gadarnhau, dylid gwisgo menyg gwahanol. Mae menyg nitril yn cael eu defnyddio fel mater o drefn mewn lleoliadau gofal iechyd oherwydd y risg o alergedd.

Dylid nodi bod menyg nitril yn gallu achosi alergedd hefyd. Am fwy o wybodaeth am fenyg latecs, ewch i wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch:

Alergeddau latecs - HSE (safle allanol, Saesneg yn unig)

## 7.2 Ffedogau

Dylai dillad neu wisg fod yn lân a chael eu diogelu gan ffedog os rhagwelir y bydd cyswllt â gwaed a hylif y corff. Gall hyn ddeillio o dasgu yn ystod y driniaeth neu wrth lanhau offer neu'r amgylchedd halogedig. Os nad oes unrhyw risg o halogiad gwaed neu hylif y corff, nid oes angen gwisgo ffedog.

Dylid newid dillad sydd wedi'u halogi â gwaed neu hylif y corff a'u golchi ar dymheredd o 65°C os yw'r ffabrig yn gallu goddef hynny. Dylid golchi'r holl ddillad gwely ar dymheredd o 65°C os ydynt yn gallu goddef hynny ar ôl eu defnyddio gyda phob cleient gan ddilyn y cyfarwyddiadau.

Os oes angen gwisgo ffedog, rhaid sicrhau:

- Ei bod yn ffedog dafladwy ac untro
- Bod ffedog newydd yn cael ei gwisgo ar gyfer pob cleient

## 7.3 Amddiffyn y llygaid

Yn gyffredinol, nid oes angen amddiffyn y llygaid fel mater o drefn yn y lleoliadau hyn yn ystod y driniaeth, ond os oes risg o hylif y corff neu waed yn tasgu i'r wyneb, mae ymarferwyr yn gallu amddiffyn eu hunain trwy wisgo goglau i amddiffyn eu llygaid neu fisor wyneb llawn os oes angen amddiffyn y trwyn a'r geg. Nid yw sbectol presgripsiwn yn amddiffyniad digonol.

Os oes modd ailddefnyddio'r goglau a'r fisor, gellir eu golchi mewn glanedydd a dŵr, eu rinsio, a'u storio mewn ardal neu gynhwysydd sych a glân. Dylid eu golchi a'u sychu ar ôl pob cleient.

## 8. Glanhau amgylcheddol

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r Amodau:**
**Atodlen 3, Rheoliad 7 (3) o Reoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024**
Amod 5: Arferion diogelwch a hylendid deiliad y drwydded
Amod 6: Gosodiadau a ffitiadau
Amod 7: Offer ac offerynnau

Atodlen 5, Rheoliad 7 (4) Tyllu'r Corff
Amod 9 (g)

**Atodlen 3, Rheoliad 11 (2) Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**
Amod 4: Strwythur dylunio ac amgylchedd ffisegol
Amod 5: Dihalogi, glanhau, diheintio a sterileiddio

Bydd arwynebau, offer, gosodiadau a ffitiadau yn cael eu halogi ac yna'n gweithredu fel ffynhonnell trosglwyddo haint, trwy'r dwylo neu offer a rennir gan amlaf. Dylent fod yn anhydraidd ac yn hawdd eu glanhau. Mae micro-organebau i'w cael mewn llwch a baw, felly mae glanhau a diheintio (pan fo'n briodol) a hwfro yn gallu gwaredu neu ddinistrio micro-organebau niweidiol posibl.

**Diffiniadau yng nghyd-destun glanhau amgylcheddol:**

**Glanhau**: Proses i waredu baw, gweddillion, gwaed, hylifau'r corff a micro-organebau i lefelau derbyniol trwy "ffrithiant" ffisegol gyda glanedydd a dŵr. Rhaid glanhau cyn mynd ati i ddiheintio gan fod rhai diheintyddion yn cael eu hanactifadu gan fater organig (baw/gwaed/hylif y corff).

**Diheintio:** Proses i leihau neu ddileu micro-organebau niweidiol trwy ddefnyddio cyfrwng cemegol.

### 8.1 Pa mor aml y mae angen glanhau?

Mae angen i'r man gwaith triniaethau arbennig gael cyflenwad dyddiol, ffres o lanedydd a diheintydd, er enghraifft, cannydd ffres sy'n cynnwys lleiafswm o 1,000 rhan fesul miliwn o glorin sydd ar gael, neu gyffelyb  ar gyfer diheintio'r amgylchedd. Nid oes angen diheintio pob ardal fel mater o drefn ac eithrio ffitiadau glanweithiol (ardaloedd toiled) oni bai bod yna halogiad hysbys neu waed neu hylif y corff gweladwy.

Mae'n gallu bod yn anodd glanhau dodrefn meddal sy'n agos at y man gwaith triniaeth arbennig a dylid eu hosgoi. Mae angen atgyweirio neu amnewid unrhyw arwynebau sydd wedi'u difrodi oherwydd eu bod yn gallu cynnal micro-organebau niweidiol. Dylai'r holl ddodrefn fod yn anhydraidd i hylif.

Os oes angen, dylai'r diheintydd fod yn gydnaws â'r deunydd gorchudd a chyfarwyddiadau glanhau'r gwneuthurwr. Dylid tynnu unrhyw orchuddion offer yn ofalus er mwyn osgoi unrhyw dasgu ac ail-halogi arwynebau. Bydd angen glanhau arwynebau o hyd os ydynt wedi'u gorchuddio.

| Arwyneb | Amlder | Cyfrwng Glanhau |
|---|---|---|
| [8]*Soffa / cadair / mainc triniaeth y cleient | Ar ôl eu defnyddio gan bob cleient | Dŵr a glanedydd |
| [7]* Trolïau triniaeth | Ar ôl eu defnyddio gan bob cleient | Dŵr a glanedydd |
| [7]* Dolenni / drysau / rheiliau (Mannau cyffwrdd aml ac uchel) | Ddwywaith y dydd oni bai eu bod wedi'u halogi | Dŵr a glanedydd |
| Basn golchi dwylo a pheiriannau wedi'u gosod ar y wal | O leiaf bob dydd neu pan welir eu bod wedi'u halogi | Dŵr a glanedydd<br><br>Defnyddio diheintydd ar gyfer halogiad gweladwy â gwaed / hylif y corff |
| Toiled/ eitemau glanweithiol / peiriannau | Bob dydd oni bai eu bod wedi'u halogi | Dŵr a glanedydd ac yna diheintydd |
| [7]* Lloriau | Bob dydd ac os yw'n amlwg eu bod wedi'u halogi | Dŵr a glanedydd |
| [7]* Nenfydau / Waliau | Os yw'n amlwg eu bod yn fudr | Dŵr a glanedydd |
| [7]* Drychau | Bob wythnos | Dŵr a glanedydd |

**Mae cadachau glanedydd neu lanedydd gyda chadachau diheintydd yn ddewisiadau amgen a rhaid dilyn cyfarwyddiadau defnyddio'r gwneuthurwr.**

[8] *Dylai diheintio ddilyn glanhau gan ddefnyddio glanedydd a dŵr os oes unrhyw arwyneb wedi'i halogi â gwaed neu hylif y corff.

## 8.2 Defnyddio cynhyrchion ac offer glanhau

Fel sy'n wir am bob sylwedd, mae angen dilyn gofynion yr holl ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn ogystal â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar gyfer ymarfer diogel.

Argymhellir glanedydd niwtral at ddibenion cyffredinol a dŵr cynnes ar gyfer glanhau rheolaidd.

Nid yw diheintyddion yn gweithredu ar unwaith ac mae angen “amser cyswllt” arnynt. Dyma'r amser y mae angen gadael y diheintydd ar yr arwyneb i gael effaith, a dylai fod yn llai na 5 munud. Ni ddylid brysio'r broses sychu trwy sychu â lliain oherwydd bydd hyn yn atal y diheintydd rhag gweithio.

Dylid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr mewn perthynas â dos (faint i'w ddefnyddio), amser cyswllt, lledaeniad a dull, gan gynnwys amser i sychu.

Dylai fod gan y cynnyrch daflen ddata prawf a thaflen ddiogelwch COSHH. Mae canllawiau pellach ar reoliadau a diogelwch cemegol ar gael drwy’r ddolen isod:

Rheoli sylweddau sy'n beryglus i iechyd (Chweched argraffiad) - L5 (hse.gov.uk) (safle allanol, Saesneg yn unig)

Wrth ddewis diheintydd ar gyfer glanhau, rhaid sicrhau y bydd yn gweithio yn erbyn firysau, bacteria a ffyngau. Dylai'r cynnyrch sy'n cael ei ddewis fod wedi'i brofi yn unol â safonau Prydeinig ac Ewropeaidd (EN) ar gyfer pob organeb. Dangosir y rhifau EN safonol ar label y cynnyrch:

- Mae BS EN 1276 yn dynodi gweithgarwch gwrthfacterol
- Mae BS EN 14476 yn dynodi gweithgarwch firwsleiddiol (firysau amlenedig a feirysau nad ydynt yn amlenedig)
- Mae BS EN 13624/1650 yn dynodi gweithgarwch sborau ffwngaidd

Ystyriaethau allweddol ar gyfer glanhau

- Dylid gwneud a defnyddio hydoddiannau yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, gan nodi dyddiad ac amser creu’r hydoddiant. Er enghraifft, mae angen gwaredu hydoddiannau clorin ar ôl 24 awr ac ni ddylid eu paratoi gyda dŵr poeth. *Ni ddylid cymysgu cynhyrchion gyda'i gilydd oni bai bod y gwneuthurwr yn nodi bod angen gwneud hynny.*
- Dylid dilyn yr amseroedd cyswllt a argymhellir gan y gwneuthurwr.
- Dylid defnyddio diheintyddion ar gyfer ffitiadau glanweithiol fel toiledau a basnau.

- Dylid storio'r offer a ddefnyddir ar gyfer glanhau mewn lle glân a sych.

- Dylid golchi bwcedi mop gyda glanedydd, eu sychu â thyweli papur a'u storio wyneb i waered. Diheintiwch os yw'r bwced wedi cael ei defnyddio ar gyfer gwaed / hylifau'r corff.

8.3 Gweithdrefn glanhau

Dylid defnyddio cyfarpar diogelu personol at ddibenion glanhau er mwyn diogelu'r ymarferydd, fel menyg a ffedogau dibenion cyffredinol i ddiogelu dillad. Dylid asesu lefelau tasgu i benderfynu a oes angen diogelu'r wyneb. Dylid ystyried y canlynol fel y dangosir yn Ffigur D isod.

- Dylai'r cyfeiriad glanhau fod o'r top i'r gwaelod gan symud o fannau glân i fannau budr.

- Dylai'r llif glanhau ddefnyddio patrwm siâp "S", gan ddechrau yn y man pellaf, gan orgyffwrdd ychydig ond heb fynd dros yr un lle ddwywaith. Mae hyn yn sicrhau bod y broses lanhau yn symud i un cyfeiriad ac nad yw'n halogi'r rhannau o'r arwyneb sydd eisoes wedi'u glanhau. Mae'n sicrhau bod yr arwyneb cyfan yn cael ei lanhau hefyd.

- Mae angen paratoi hydoddiant ffres o ddŵr a glanedydd bob dydd a'i newid pan fydd yn edrych yn fudr ac wrth symud i leoliad / ystafell newydd.

- Mae rhai bacteria yn gallu tyfu mewn diheintyddion, felly mae angen eu paratoi bob dydd hefyd.

- Dylid defnyddio offer glanhau ar wahân ar gyfer man y driniaeth, y man dihalogi a'r toiledau.

- Dylid glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn gyson, fel dolenni drysau, yn aml (e.e. ar ôl pob cleient).

- Mae llieiniau a chlytiau/pennau mop yn gallu achosi halogiad hefyd, a dylent naill ai fod yn eitemau untro neu'n eitemau y mae'n hawdd eu golchi a'u diheintio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

- Dylai'r lloriau gael eu glanhau a/neu eu diheintio yn olaf.

- Mae angen archwilio mannau sydd wedi'u glanhau ar ôl gorffen y gwaith er mwyn asesu unrhyw ddifrod a glendid.

Ffigur D



Ffynhonnell: GAMA healthcare

8.4 **Gollyngiadau gwaed a hylif y corff (e.e. chwyd ac wrin)**

Er bod risg isel o ollyngiadau yn y lleoliad, mae pecynnau gollwng ar gael ac yn cael eu hargymell. Maen nhw'n cynnwys gronynnau glanedydd/clorin a chyfarpar diogelu personol tafladwy i reoli gollyngiadau gwaed a hylifau'r corff. Dylid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr gan ddibynnu ar a oes gwaed neu hylif y corff (chwyd neu wrin) wedi'u gollwng.

**Mae diheintyddion clorin yn gallu rhyddhau nwy gwenwynig wrth gael eu defnyddio'n uniongyrchol ar wrin a chwyd neu os ydynt yn cael eu cymysgu â dŵr poeth. Mae modd lliniaru'r risg hon trwy ddefnyddio tywelion papur i ddechrau er mwyn glanhau'r gollyngiad neu ddefnyddio diheintydd nad yw'n cynnwys clorin. Yna gellir glanhau'r ardal trwy ddefnyddio glanedydd a dŵr ac yna diheintydd.**

Y prif feirysau a gludir yn y gwaed (BBVs) sy'n peri pryder yw hepatitis B, hepatitis C, hepatitis D a HIV. Mae risg isel o BBVs yn hylifau'r corff oni bai eu bod wedi'u halogi â gwaed.

Dylid gwisgo cyfarpar diogelu personol cywir er mwyn diogelu'r unigolyn (menyg a ffedogau untro) a dylid ystyried amddiffyn y llygaid. Dylid monitro dyddiad dod i ben y pecynnau gollwng.

## 9. Dyluniad, strwythur a'r amgylchedd ffisegol

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r amodau yn Atodlen 3 Rheoliad 11(2) Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**
Amod 1: Cyffredinol
Amod 3: Materion yn ymwneud ag arddangos hysbysiadau a mynediad cyfyngedig
Amod 4: Dyluniad, strwythur ac amgylchedd ffisegol

### 9.1 Awyru a goleuo

Dylai mangreoedd fod mewn cyflwr da a bod â system awyru a golau digonol ar gyfer y tasgau sy'n cael eu cyflawni. Diben awyru yw dod ag aer ffres i mewn o'r tu allan a chael gwared ar aer y tu mewn. Mae hyn yn helpu i gael gwared ar arogleuon a sylweddau niweidiol (cyfryngau glanhau cemegol) ac yn helpu i leihau halogyddion/micro-organebau yn yr awyr trwy eu gwanedu. Mae modd defnyddio dulliau naturiol neu fecanyddol o awyru. Mae arwyddion o awyru gwael yn y man gwaith yn cynnwys awyrgylch trymaidd ac arogl.

O dan reoliad 6 Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Llesiant) 1992, rhaid i gyflogwyr sicrhau bod pob gweithle caeedig yn cael ei awyru gan ddigon o aer ffres neu aer wedi'i buro.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch:

Trosolwg - Awyru yn y gweithle (safle allanol, Saesneg yn unig)

Gellir sicrhau awyru naturiol trwy agor ffenestri (gyda sgriniau pryfed), drysau a slotiau awyru diferynnu â llaw er mwyn cael aer ffres i mewn. Bydd agor ffenestri am 10 munud bob awr, hyd yn oed mewn tywydd oer, yn gwella ac yn awyru ystafelloedd. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hyn, mae angen sicrhau bod yr aer allanol yn "lân", er enghraifft os oes biniau neu safle adeiladu ger y ffenestr, ni fyddai hyn yn cael ei ystyried yn lân. Hefyd, mae angen ystyried unrhyw weithfannau triniaeth arbennig ac ystafelloedd cyfagos sydd â ffenestri, fel toiledau.

Mae systemau awyru mecanyddol yn defnyddio gwyntyllau i symud yr aer i mewn ac allan o ystafelloedd, a gellir defnyddio dwythellau a gwyntyllau mewn adeiladau mawr i chwythu aer glân i mewn a chael gwared ar hen aer.

Efallai y bydd angen ail-gyflunio dyluniad a chynllun ystafelloedd neu ystyried defnyddio system awyru fecanyddol os nad oes modd sicrhau awyru naturiol.

Gellir annog a mabwysiadu hylendid anadlol a pheswch gan ymarferwyr a chleientiaid:

Defnyddio hancesi papur tafladwy i orchuddio'r trwyn a'r geg wrth disian neu besychu a darparu bag neu fin gwastraff i'w gwaredu er mwyn atal halogiad aer.

## 9.2 Diffiniadau: Man Gwaith Triniaethau Arbennig (SPWA)

Rhaid i'r weithfan fod â digon o le i sicrhau bod modd darparu'r driniaeth arbennig mewn ffordd ddiogel a hylan.

Bydd maint gweithfannau yn amrywio gan ddibynnu ar y driniaeth arbennig sy'n cael ei darparu a chyfansoddiad y weithfan. Er enghraifft, ni fydd gan rai gweithfannau gadair i'w defnyddio gan ddeiliad y drwydded, bydd maint arwyneb y weithfan yn dibynnu ar faint o offer sy'n cael ei ddefnyddio, a gallai cadair neu wely'r cleient amrywio o ran maint hefyd.

Er mwyn sicrhau bod y driniaeth arbennig yn cael ei darparu yn ddiogel ac yn hylan, rhaid sicrhau bod o leiaf un metr o le rhwng perimedr y weithfan ac (a) gweithfan arall a (b) gosodiadau a ffitiadau eraill. Bydd hyn yn lliniaru'r risg o groes-heintio ac yn hwyluso llif gwaith budr i lân.

Mae'n rhaid i'r Man Gwaith Triniaethau Arbennig ddarparu ar gyfer y weithfan/gweithfannau a chyfleusterau ar gyfer storio yn lân unrhyw offer a chynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer neu ar y cyd â thriniaethau arbennig er mwyn atal y risg o halogi.

Mae SPWA yn cynnwys gweithfannau. Bydd nifer y gweithfannau y gellir eu lleoli mewn SPWA yn dibynnu ar faint, siâp a strwythur yr SPWA.

Dylid ystyried y materion canlynol wrth benderfynu faint o weithfannau y gellir darparu ar eu cyfer yn yr SPWA a lle y dylid eu lleoli:

- Isafswm o 1 metr rhwng perimedr pob gweithfan
- Mae nifer a lleoliad gweithfannau yn hwyluso llif gwaith 'budr i lân' ac nid ydynt yn caniatáu trawsgroesi
- Mae nifer a lleoliad y gweithfannau yn caniatáu glanhau a diheintio effeithiol ym mhob rhan o'r SPWA
- Mae mynediad hwylus ar gael o'r gweithfannau i'r basn/basnau golchi dwylo

## 9.3 Bwyd a Diod

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r Amodau yn Atodlen 3, Rheoliad 7 (3) o Reoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024**
Amod 5, Arferion diogelwch a hylendid deiliad y drwydded.

Rhaid i'r ymarferydd beidio â bwyta bwyd neu yfed diodydd yn y man gwaith triniaethau arbennig oherwydd y gallai ddod i gysylltiad ag arwynebau neu offer halogedig. Fodd bynnag, mewn rhai

amgylchiadau, caniateir bwyd a diod ar gyfer y cleient os oes ganddo anghenion meddygol fel diabetes. Dylai ymarferwyr sydd ag anghenion meddygol allu cymryd seibiant yn ystod y driniaeth er mwyn bwyta ac yfed mewn ystafell / lle arall.

9.4 Anifeiliaid

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r Amodau yn Atodlen 3, Rheoliad 7 (3) o Reoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024**
Amod 5, Arferion diogelwch a hylendid deiliad y drwydded

**Atodlen 3, Rheoliad 11 (2) Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Triniaethau Arbennig a Gymeradwywyd (Cymru) 2024**
Amod 3: Materion yn ymwneud ag arddangos hysbysiadau a mynediad cyfyngedig

**Atodlen 4, Rheoliad 11 (3) Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Triniaethau Arbennig a Gymeradwywyd (Cymru) 2024**
Amod 3: Materion yn ymwneud ag arddangos hysbysiadau a mynediad cyfyngedig

Dim ond cŵn cymorth sydd wedi'u cofrestru a'u hyfforddi sy'n gallu mynd i mewn i'r fangre lle mae triniaethau'n cael eu darparu. Y rheswm am hyn yw atal cŵn rhag lledaenu haint trwy halogi'r amgylchedd neu ddwylo. Ni ddylid caniatáu i anifeiliaid anwes ac anifeiliaid eraill gan gynnwys ymlusgiaid fynd i mewn i'r man gwaith triniaethau arbennig (SPWA) mewn unrhyw fangre. Mae bacteria salmonela yn cael eu lledaenu'n hawdd o ymlusgiaid i bobl.

## 10. Rheoli gwastraff gan gynnwys offer miniog

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r Amodau:**
**Atodlen 3 Rheoliad 7 (3) o Reoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024**
Amod 8: Gwastraff

**Atodlen 3 Rheoliad 11 (2) Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**
Amod 6: Gwastraff gan gynnwys offer miniog

**Atodlen 4 Rheoliad 11 (3) Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**
Amod 6: Gwastraff gan gynnwys offer miniog

### 10.1 Rheoliadau gwastraff trefol

Mae gwastraff a gynhyrchir o weithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag iechyd, er enghraifft offer miniog a gwastraff sy'n gysylltiedig â'r holl driniaethau arbennig, yn cael eu rheoleiddio o dan Reoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 at ddibenion adran 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (1990). Mae pob ymarferydd a rheolwr yn gyfrifol yn gyfreithiol am waredu gwastraff yn ddiogel.

Mae Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 yn nodi bod yn rhaid i gynhyrchydd gwastraff lofnodi datganiad sy'n disgrifio'r gwastraff sydd i'w gasglu. Y rheoleiddwyr ar gyfer y ddyletswydd gofal: Cod Ymarfer ar gyfer Gwastraff yng Nghymru yw Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac awdurdodau lleol. Mae'r ddyletswydd gofal yn amlinellu cyfrifoldebau unrhyw un sy'n cynhyrchu ac yn gwaredu gwastraff, gan nodi'r hyn sy'n anghyfreithlon.

Dyletswydd gofal gwastraff: cod ymarfer (fersiwn hygyrch) - GOV.UK (www.gov.uk) (safle allanol, Saesneg yn unig)

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ailgylchu trwy glicio ar y ddolen. Bydd gwahanu gwastraff yn briodol yn cyfyngu ar yr effaith negyddol ar yr amgylchedd ac yn lleihau costau triniaeth ddiangen:

Casglu deunyddiau gwastraff ar wahân ar gyfer ailgylchu: cod ymarfer Cymru (llyw.cymru)

Mae Llawlyfr Technegol Iechyd Cymru am Reolaeth Ddiogel a Chynaliadwy ar wastraff Gofal Iechyd 2025 (Llawlyfr Technegol Iechyd Cymru 09-01) gan gynnwys gwybodaeth am ddosbarthu gwastraff. Mae meysydd allweddol o'r ddogfen hon wedi'u cymhwyso yn yr adran hon er hwylustod darllen.




nwssp.nhs.wales/ourservices/specialist-estates-services/specialist-estates-services-documents/whtms-library/whtm-07-01-safe-management-of-healthcare-waste-pdf/ (safle allanol, Saesneg yn unig)

10.2 Dosbarthu gwastraff (Codau Gwastraff Ewropeaidd)

Mae gwastraff yn cael ei ddosbarthu o dan reoliadau EWC (Catalog Gwastraff Ewropeaidd wedi'i godio â lliw) yng Nghymru a Lloegr ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr ddisgrifio eu gwastraff gan ddefnyddio'r cod EWC priodol wrth drosglwyddo gwastraff o'r fangre. Gwneir hyn er mwyn hysbysu contractwyr a busnesau trin gwastraff am natur y gwastraff er mwyn iddynt ei waredu'n briodol.

10.3 Dosbarthu gwastraff (Codau Gwastraff Ewropeaidd)

Mae'r codau a'r lliwiau yn y tabl yn ymwneud â'r “ffrydiau gwastraff” gwahanol (sut yr ymdrinnir â gwastraff) ac mae angen eu defnyddio ar gyfer yr holl driniaethau arbennig.

| Ffrwd wastraff | Disgrifiad / Codau EWC | Lliw |
|---|---|---|
| Domestig (gwastraff trefol) | Gwastraff ac eithrio gwastraff y gellir ei ailgylchu fel papur, caniau a bwyd y dylid eu gwahanu.<br><br>20 03 01 |  |
| Tramgwyddus | Gwastraff hylendid gan gynnwys gwastraff sydd wedi'i halogi â gwaed/hylifau'r corff fel menyg, ffedogau, dresinau.<br><br>18 01 04/ 18 02 03 |  |
| Offer miniog | Offer miniog nad ydynt wedi'u halogi yn feddyginiaethol<br><br>20 01 99 | <br><br>Caead Oren.<br><br>*Dylid holi'r contractwr am liw'r blwch anhyblyg gan y gallai fod yn felyn neu'n llwyd (deunydd wedi'i ailgylchu)* |

Ar gyfer [9]gwastraff meddal, Os oes swm bach (llai na 7kg) gall fynd mewn gwastraff bag du arferol. Os oes llawer mwy na 7kg rhaid ei waredu fel gwastraff tramgwyddus/hylendid fel y gellir ei drin a'i waredu'n ddiogel (gweler tudalen 40 o WHTM)

Mae pob math o wastraff nad yw'n offer miniog yn cael ei ystyried yn wastraff nad yw'n heintus (nid yw wedi dod o gleient sydd â haint). Mae'r math hwn o wastraff yn cynnwys menyg, ffedogau a rhwyllenni/dresin sydd wedi'u halogi â gwaed neu hylifau'r corff yn ystod y driniaeth, ac mae'n cael ei ystyried yn wastraff "tramgwyddus" (bag melyn/du fel arfer).

Os nad yw gwastraff offer miniog wedi'i halogi â chynhyrchion meddyginiaethol, dylid ei waredu mewn bin melyn neu lwyd gyda chaead oren ar gyfer offer miniog sy'n cydymffurfio â'r safon. Rhaid i'r cynhwysydd gydymffurfio â safonau UN 3291 a BS7320.

Ni ddylai deiliaid trwydded rannu biniau ar gyfer offer miniog gydag ymarferwyr sy'n rhoi pigiadau Botox. Dosberthir Botox fel sytostatig a rhaid defnyddio bin ar gyfer offer miniog sydd â chaead porffor er mwyn ei waredu.

## 10.4 Safonau trin gwastraff

- Dylai pob bin gwastraff fod â chaead er mwyn osgoi gollyngiadau, a rhaid defnyddio bin sy'n cael ei agor gan y droed er mwyn osgoi halogi'r dwylo.
- Dylai cynwysyddion a biniau gael eu labelu'n glir â manylion eich cwmni/busnes a nodi'r gwastraff sydd y tu mewn iddynt. Gwneir hyn hefyd er mwyn olrhain unrhyw anaf gan nodwydd wrth drosglwyddo'r gwastraff o'r fangre.
- Ni ddylid defnyddio bagiau gwastraff "heintus" (oren fel arfer) na biniau offer miniog deintyddol gan nad ydynt yn briodol yn y lleoliad hwn.
- Dylid dewis bin o'r maint cywir ar sail y defnydd.
- Dylid cau bagiau a biniau yn ddiogel pan fyddant yn dri chwarter llawn.
- Dylai pobl sy'n trin y gwastraff wisgo cyfarpar diogelu personol priodol (menyg a ffedogau o leiaf) i ddiogelu eu hunain.

[9] Mae gwastraff meddal yn golygu gwlân cotwm, swabiau a gorchuddion bach sydd â hylif corfforol arnynt

## 10.5 Gwastraff offer miniog

Mae offer miniog yn cynnwys nodwyddau, neu offerynnau eraill, sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud gwaith triniaeth arbennig ac sy'n gallu achosi anaf trwy dorri neu dyllu'r croen.

- Ni ddylid cadw biniau offer miniog ar y llawr rhag ofn eu bod yn cael eu cicio'n ddamweiniol a bod offer miniog yn disgyn i'r llawr. Rhaid sicrhau eu bod allan o gyrraedd y cyhoedd.

- Dylid defnyddio'r ddyfais cau dros dro bob amser.

- Ni ddylid ysgwyd biniau offer miniog, ac ni ddylid gwasgu cynnwys y bin i lawr er mwyn creu mwy o le. Unwaith y mae'r gwastraff wedi cyrraedd y llinell 'llawn', rhaid cau'r bin.

- Mae biniau offer miniog ar gael mewn meintiau gwahanol, ac mae'r maint mwyaf priodol yn cael ei ddewis ar sail amlder y defnydd a faint o wastraff miniog sy'n cael ei greu.

- Y defnyddiwr sy'n gyfrifol am waredu offer miniog; ni ddylid byth rhoi nodwyddau mewn bagiau gwastraff (bag gwastraff melyn/du tramgwyddus neu fag gwastraff du).

## 10.6 Storio gwastraff

Rhaid cadw gwastraff sy'n aros i gael ei gasglu mewn ardal benodedig, a dylid labelu a dyddio'r gwastraff. Dylid sicrhau bod yr ardal yn ddiogel a bod modd ei chloi er mwyn ei gwarchod rhag unrhyw gamddefnydd, a diogelu'r gwastraff rhag fermin a dŵr. Rhaid sicrhau bod yr ardal yn hygyrch er mwyn ei glanhau hefyd.

# 11. Iechyd Galwedigaethol ar gyfer ymarferwyr

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r amodau yn Atodlen 3, Rheoliad 7 (3) o Reoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024**
Amod 4: Cadw cofnodion

## 11.1 Anaf gan nodwydd

Os caiff yr ymarferydd ei anafu gan offeryn miniog sydd wedi cael ei ddefnyddio, gan gynnwys nodwydd (treiddio'r croen/inocwleiddio) rhaid dilyn y canllawiau yn y ddolen Iechyd a Diogelwch isod:

Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol - Anafiadau gan offer miniog (hse.gov.uk) (safle allanol, Saesneg yn unig)

Ar gyfer anafiadau gan nodwyddau/offer miniog

- Gadewch i'r clwyf waedu'n ysgafn o dan ddŵr rhedegog.
- Golchwch ardal y clwyf gyda dŵr rhedegog a sebon.
- Peidiwch â sgwrio'r clwyf.
- Sychwch man y clwyf a'i gorchuddio â dresin neu blastr gwrth-ddŵr.
- Peidiwch byth â sugno man y clwyf.
- Chwiliwch am gymorth meddygol yn syth (o fewn 1 awr i'r anaf) trwy fynd i'r Adran Achosion Brys agosaf er mwyn penderfynu a thrafod yr angen am feddyginiaeth ataliol gan ddibynnu ar yr asesiad risg.
- Cofnodwch y digwyddiad yn eich cofnodion digwyddiadau.

Y prif risg sy'n deillio o anaf gan offer miniog yw cysylltiad â feirysau a gludir yn y gwaed (BBV) sy'n digwydd pan fydd offeryn miniog yn cael ei halogi â gwaed neu hylif y corff gan gleient a allai fod â BBV:

- Hepatitis B (HBV)
- Hepatitis C (HCV)
- Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol (HIV)

*Mae nodwyddau sydd â chanol gwag yn peri mwy o risg.*

### 11.2 Camau gweithredu yn dilyn anaf sydd wedi'i achosi gan halogydd yn tasgu neu inocwleiddio

Os yw halogydd wedi tasgu i'r llygaid, y trwyn neu'r geg:

Golchwch gyda dŵr rhedegog cynnes er mwyn gwanedu / fflysio'r halogydd. Ar gyfer y geg, poerwch allan unrhyw waed neu hylif y corff a pharhau i rinsio'r geg gyda dŵr yfed.

### 11.3 Brechiad hepatitis B[10]

Mae anaf gan nodwydd / offer miniog yn gallu trosglwyddo hepatitis B. Mae gweithwyr sydd mewn mwy o berygl (oherwydd natur eu gwaith) o gael anaf gan offer miniog sydd wedi'u halogi â gwaed yn cael eu hargymell i gael y brechlyn ar gyfer atal hepatitis B.

[10]Dim ond yn erbyn hepatitis B y mae brechiad ar gael, ac argymhellir y brechiad hwn yn gryf er mwyn diogelu'r ymarferydd.

Yn gyffredinol, mae angen tri brechlyn ar wahân trwy bigiad yn rhan uchaf y fraich dros gyfnod o chwe mis. Nid yw Sefydliad Iechyd y Byd yn argymell unrhyw bigiadau atgyfnerthu pellach (brechlynnau). Mewn achos o anaf dilynol gan nodwydd, dylid golchi'r anaf a gofyn am gyngor meddygol fel y disgrifir uchod.

Mae mynediad at y brechlyn HBV yn amrywio ledled Cymru. I ddechrau, gall ymarferydd ofyn i'w feddyg teulu a yw'n darparu'r gwasanaeth, neu efallai y bydd y meddyg teulu'n gallu atgyfeirio'r ymarferydd at feddygfa arall. Fel arall, efallai y bydd rhai fferyllfeydd ar y stryd fawr a chlinigau teithio yn cynnig y brechlyn gan godi tâl am bob brechlyn a roddir.

Fe'ch cynghorir i gael prawf gwaed 2-3 mis ar ôl cwblhau'r cwrs o frechlynnau er mwyn cadarnhau bod gennych imiwnedd. Bydd y prawf yn edrych ar lefelau'r gwrthgyrff yn eich gwaed er mwyn cadarnhau bod eich corff yn gallu ymladd haint feirws Hepatitis os ydych chi'n dod i gysylltiad â hi. Gall eich meddyg teulu roi cyngor i chi ar sut i gael y prawf.

Mewn rhai achosion prin iawn, nid yw rhai pobl yn ymateb i'r cwrs o frechlynnau ac mae ganddynt lefelau isel iawn o wrthgyrff. Mewn achosion o'r fath, bydd y meddyg teulu yn rhoi cyngor ar y camau nesaf. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y ddolen isod.

Hepatitis B: the green book, chapter 18 - GOV.UK (www.gov.uk)

11.4 **Heintiau eraill**

Os oes gan ymarferwyr ddolur rhydd neu os ydynt yn chwydu, ni ddylent fod yn gweithio tra bod ganddynt symptomau a dylent ond dychwelyd i'r gwaith 48 awr ar ôl i'r symptomau ddarfod. Ar gyfer heintiau anadlol, gall ymarferwyr ddychwelyd i'r gwaith pan fyddant yn teimlo'n well. Dylai ymarferwyr ddarllen y canllawiau cenedlaethol ar COVID-19 neu feirysau newydd eraill i gael gwybodaeth am y cyfnod ynysu a argymhellir.

Hefyd, dylai ymarferwyr osgoi rhoi triniaethau os oes ganddynt unrhyw glwyfau agored ar eu dwylo sy'n gollwng unrhyw grawn. Dylai dresin gwrth-ddŵr orchuddio'r clwyf yn llawn a dylid gwisgo menyg.

12. Dihalogi ac ailbrosesu offer ac offerynnau

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r Amodau:**
**Atodlen 3 Rheoliad 7 (3) o Reoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024**
Amodau 7: Offer ac Offerynnau

Atodlen 5 Rheoliad 7 (4) Tyllu'r corff
Amodau 6 a 9

Atodlen 7, Rheoliad 7 (4) Tatŵio
Amod 10

**Atodlen 3, Rheoliad 11 (2) Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**
Amod 5: Dihalogi, glanhau, diheintio a sterileiddio

Mae dihalogi offer a ddefnyddir wrth roi triniaeth arbennig yn chwarae rhan bwysig yn y broses o atal trosglwyddo heintiau. Os oes modd, dylid defnyddio eitemau untro sydd wedi'u sterileiddio ymlaen llaw.

Pam y dylem ddihalogi offer:

- Er mwyn amddiffyn cleientiaid rhag heintiau.
- Er mwyn amddiffyn ymarferwyr rhag heintiau.
- Er mwyn amddiffyn ymarferwyr rhag ymgyfreitha / niwed i enw da.
- Er mwyn atal micro-organebau rhag lledaenu ac atal ymwrthedd i wrthfiotigau.

Beth yw dihalogi?

Dihalogi yw'r broses sy'n cynnwys glanhau a diheintio a/neu sterileiddio er mwyn sicrhau bod eitem y gellir ei hailddefnyddio yn ddiogel i'w defnyddio eto neu ei hailddefnyddio. Y term arall am ddihalogi offerynnau yw ailbrosesu.

| | |
|---|---|
|  | Os yw cynhyrchwyr yn defnyddio'r symbol hwn ar gyfer eitemau untro, ni ddylid ailddefnyddio eitemau o'r fath, ac mae angen eu gwaredu yn syth ar ôl eu defnyddio |

Rhaid glanhau pob eitem cyn ei sterileiddio neu ei diheintio, oherwydd os oes gwaed neu brotein ar yr offerynnau o hyd, bydd yn atal y broses ddiheintio neu sterileiddio rhag gweithio'n iawn.

Ni ddylid defnyddio Diheintio Lefel Uchel (CDL) fel mater o drefn ar gyfer eitemau mewnwthiol.

**Diffiniadau a ddefnyddir wrth ddihalogi offerynnau:**

**Glanhau**: proses i waredu baw, gweddillion, gwaed a hylifau'r corff a micro-organebau i lefelau derbyniol trwy “ffrithiant” ffisegol a glanedydd a dŵr. Rhaid glanhau cyn diheintio gan fod rhai diheintyddion yn cael eu hanactifadu gan fater organig (baw/gwaed/hylifau'r corff).

**Diheintio:** proses i leihau neu ddileu micro-organebau niweidiol gan ddefnyddio cyfrwng cemegol.

**Sterileiddio:** y broses o wneud cynnyrch yn ddi-haint trwy leihau lefel y micro-organebau i lefel isel. Ni fydd cynhyrchion yn aros yn ddi-haint os ydynt yn cael eu hail-halogi wrth gael eu storio neu eu trin.

**Diheintio Lefel Uchel (HLD):** proses sy'n lladd pob organeb ficrobaidd ond nid o reidrwydd sborau bacteriol ac fe'i nodir lle mae eitemau wedi bod mewn cysylltiad â philenni mwcaidd.


## 12.1 Yr ardal a ddefnyddir ar gyfer dihalogi offer (ardal fudr)

Yn ddelfrydol, dylai'r ardal lle mae offer a dyfeisiau mewnwthiol yn cael eu dihalogi a'u hailbrosesu fod ar wahân yn ffisegol i fannau gwaith eraill, ond fel dewis arall, gall ymarferwyr neilltuo ardal bwrpasol sydd wedi'i marcio'n glir gyda llif gwaith unffordd o'r eitemau budr i lanhau, diheintio a sterileiddio (budr i lân). Mae hyn yn sicrhau nad yw'r offerynnau budr yn dod i gysylltiad ag eitemau sydd wedi'u glanhau a'u sterileiddio.

Dylid lleihau nifer y bobl sy'n defnyddio'r ardal hon er mwyn atal ymarferwyr, cleientiaid a'r amgylchedd rhag dod i gysylltiad ag offer budr.

Dylid storio offerynnau wedi'u hailbrosesu/eitemau wedi'u sterileiddio ar wahân i'r weithfan yn yr ardal lân.

## 12.2 Enghraifft o gynllun dihalogi sy'n symud o gyfeiriad budr i lân (llif gwaith)




**Allw**

Llif offerynnau Llif aer

**Nodiadau**

1. Mae defnyddio peiriant glanhau uwchsain yn ddewisol. Os nad oes defnydd glanhau o'r fath yn cael ei ddarparu, bydd modd lleihau anawsterau trin trwy leoli'r sinc golchi ger y sinc rinsio neu drwy gyfuno'r ddau sinc trwy osod sinc â dwy bowlen.

2. Gall practisau gynyddu nifer y diheintyddion os oes angen gwneud hynny am resymau capasiti a pharhad y gwasanaeth.

[11]

Yn dilyn y driniaeth arbennig, dylid cludo offer halogedig at ddibenion dihalogi ac ailbrosesu i'r ardal ddihalogi mewn cynhwysydd nad oes modd ei dyllu. Dylid cadw offerynnau yn llaith tra eu bod yn aros i gael eu glanhau (bydd yn anoddach i'w glanhau os ydynt yn sych). **Ni** ddylid eu gwlychu mewn hydoddiant halwynog neu hypoclorit gan ei fod yn gallu difrodi'r offerynnau. Gellir defnyddio tywel papur tafladwy gwlyb i lapio'r offerynnau a/neu eu rhoi mewn bag plastig dros dro.

Mae glanhau offerynnau â llaw yn ddull derbyniol ond hwn yw'r dull lleiaf effeithiol ac mae'n anodd ei ddilysu. Mae'n rhaid i staff gael eu hyfforddi i ddefnyddio pob dull yn gywir.

Dylid gwaredu gwaed cyn gynted ag y bo modd gan ei fod yn tueddu i geulo, a bydd yn anoddach i'w waredu wedyn.

[11] Addaswyd o Memorandwm Technegol Iechyd 01-05: Dihalogi mewn gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol

12.3 Glanhau â llaw

- Dylai gwaith glanhau â llaw gael ei wneud mewn sinc pwrpasol, gan ddefnyddio dau sinc yn ddelfrydol, un ar gyfer golchi a'r llall ar gyfer rinsio.

- Dylid gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol wrth lanhau, gan gynnwys menyg gwaith trwm (neu nitril), goglau a ffedogau gwrth-ddŵr o leiaf.

- Dylid agor eitemau fel siswrn neu efeiliau yn llawn fel bod ager yn gallu cyrraedd yr holl arwynebau yn ystod y broses sterileiddio.

- Dylid trochi eitemau mewn sinc pwrpasol ar gyfer diheintio offer gyda dŵr cynnes (nid dŵr poeth gan ei fod yn gallu cloi  proteinau) a glanedydd. Mae trochi mewn glanedydd a dŵr wrth lanhau yn lleihau erosolau wrth sgwrio.

- Dylid defnyddio brwsys â handlenni hir a blew meddal er mwyn osgoi difrodi offerynnau.

- Dylid dewis glanedydd priodol sydd wedi'i gynhyrchu at y diben dan sylw.

- Dylid defnyddio glanedydd sy'n gydnaws â'r offer a dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

- Yna dylid rinsio a sychu'r offer gan ddibynnu ar gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

- Rhaid defnyddio offer glanhau fel brwsys pwrpasol at y diben hwn, yna eu glanhau, eu diheintio a'u sterileiddio neu eu gwaredu.

- Nid yw gwlychu mewn diheintydd yn ddull digonol o lanhau ac nid yw'n disodli sterileiddio.

Dylid archwilio offer ac offerynnau mewn golau da i weld a ydynt wedi'u baeddu.

Ni ddylid ailddefnyddio offer glanhau oni bai bod modd eu sterileiddio.



**Peidiwch ag ailddefnyddio brwsys oni bai bod modd eu sterileiddio**

12.4 Dulliau awtomatig o lanhau cyn sterileiddio

Mae'n rhaid dilysu, profi, cynnal a chadw, a gwasanaethu'r holl offer a ddefnyddir i ddihalogi offerynnau yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr/cyflenwr. Dylid cadw cofnodion at ddibenion archwilio.

Mae rhagor o wybodaeth am brofi a chynnal a chadw peiriannau glanhau uwchsain, diheintyddion golchwyr a diheintyddion meinciau gwaith ar gael yn y Memorandwm Technegol Iechyd 01-05: Dihalogi mewn gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol. Er bod y canllawiau yn cyfeirio at ddeintyddiaeth yn benodol, mae'r wybodaeth am ddiheintyddion a dulliau glanhau awtomataidd yn berthnasol ac yn ddefnyddiol.

https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2021/05/HTM_01-05_2013.pdf (safle allanol, Saesneg yn unig)

12.4.1 Peiriannau glanhau uwchsain

- Mae peiriannau glanhau uwchsain yn gwaredu baeddu ar yr arwyneb cyn sterileiddio. Ni fydd y peiriant glanhau uwchsain yn diheintio, a bydd eitemau yn halogedig o hyd gan beri risg o anaf gan offer miniog.

- Gellir defnyddio peiriannau glanhau uwchsain (Ffig G) ar gyfer eitemau gwag neu eitemau gyda lwmen. Maen nhw'n defnyddio tonnau sain amledd uchel, egni uchel i waredu mater organig.

- Dylent gydymffurfio â manylebau diogelwch trydanol BS EN 61010-1 a chydymffurfio â rhannau 1, 2 a 5 o EN 15883.

- Rhaid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar ddefnyddio unrhyw hydoddiant glanhau a swyddogaeth dinwyo cyn eu defnyddio.

- Ni ddylid gorlwytho'r fasged neu oedi'r cylchred ar ôl cychwyn.

- Rhaid gorchuddio'r baddon uwchsain wrth ei ddefnyddio er mwyn osgoi rhyddhau erosolau.

- Rhaid sicrhau bod y broses weithredu a'r gwaith cynnal a chadw yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, gan gynnwys glanhau'r holl ddarnau, dewis cyfarpar diogelu personol a gwybodaeth am brofion perfformiad dyddiol, a chanllawiau ar yr adegau pan fydd angen cwblhau profion eraill gan gynnwys gwasanaeth blynyddol.

- Mae prawf ffoil alwminiwm (Ffig H) yn y tanc glanhau yn dangos bod gweithgarwch uwchsain yn cael ei ddosbarthu'n unffurf (bydd tyllau yn bresennol os yw'n gweithio'n iawn).

- Gellir defnyddio argraffydd a chofnodydd data awtomatig i ddangos tystiolaeth o hyd unrhyw fath o gylchred glanhau a methiannau'r cylchred. Dylid cadw canlyniadau at ddibenion archwilio.

- Mae angen draenio, glanhau a sychu'r defnydd glanhau ar ddiwedd y dydd.


- Mae angen archwilio glendid eitemau unwaith y bydd y broses wedi'i chwblhau, a'u dychwelyd i'r peiriant glanhau uwchsain ar gyfer ail gylchred. Bydd unrhyw weddillion yn atal sterileiddio digonol.

- Dylid gosod peiriannau glanhau uwchsain mewn ardal ddynodedig yn dilyn llif gwaith budr i lân.

*Ffig (G) Peiriant glanhau uwchsain*



*Ffig (H) Prawf ffoil*



### 12.4.2 Peiriannau Golchi-Diheintio (awtomatig)

- Mae peiriannau golchi a diheintio yn glanhau ac yn diheintio yn ystod cylchred proses, ond rhaid defnyddio diheintydd a argymhellir yn unig. Bydd angen sterileiddio eitemau o hyd.
- Rhaid iddynt gael eu dylunio at ddibenion glanhau offerynnau ac ni ellir defnyddio peiriant golchi llestri domestig.
- Rhaid sicrhau bod y broses weithredu a'r gwaith cynnal a chadw yn dilyn cyfarwyddiadau defnyddio’r gwneuthurwr gan gynnwys glanhau'r holl gydrannau, dewis cyfarpar diogelu personol a gwybodaeth am brofion perfformiad dyddiol, a chanllawiau ar yr adegau pan fydd angen cwblhau profion eraill gan gynnwys gwasanaeth blynyddol.
- Dylid dilysu'r defnydd o ddiheintydd y peiriant golchi adeg comisiynu, cynnal a chadw, a gwasanaethu.
- Gellir defnyddio argraffydd a chofnodydd data awtomatig i ddangos prawf o hyd unrhyw fath o gylchred glanhau, tymheredd a methiannau cylchred er enghraifft. Dylid cadw canlyniadau at ddibenion archwilio.
- Rhaid dadgydosod offerynnau cyn llwytho, a dylid eu gosod yn briodol mewn basgedi neu hambyrddau heb orgyffwrdd neu orlwytho. Dylai prosesau archwilio sicrhau bod offerynnau'n rhydd o halogiad gronynnol, dyddodion halen neu afliwiad.

### 12.5 Dosbarthu offer a dull dihalogi

Gellir dosbarthu eitemau a ddefnyddir mewn triniaethau arbennig yn ôl eu risg o drosglwyddo micro-organebau. Mae'r tabl isod yn nodi lefel y risg ar gyfer pob eitem a'r safon ofynnol ar gyfer dihalogi (os nad yw offeryn wedi'i restru, edrychwch ar y categori risg i nodi'r dull dihalogi mwyaf priodol).

Diheintio Lefel Uchel (HLD): Proses sy'n lladd pob organeb ficrobaidd ond nid sborau bacteriol o reidrwydd a dylid ei defnyddio lle mae eitemau wedi bod mewn cysylltiad â philenni mwcaidd.

Sterileiddio yw'r safon aur ar gyfer dihalogi offer sydd wedi dod i gysylltiad â gwaed neu feinwe. Nid yw HLD yn gallu disodli sterileiddio.

Nid yw alcohol yn HLD, a gwelwyd bod alcohol yn rhwymo gwaed a phroteinau i ddur gwrthstaen ac arwynebau caled, a dylid ei osgoi. Gweler y Memorandwm Technegol Iechyd ar Ddihalogi 01-05 yn y ddolen isod.

https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2021/05/HTM_01-05_2013.pdf (safle allanol, Saesneg yn unig)

Dihalogi dyfais Cetris - tabl

| Categori risg | Eitem | Dull dihalogi |
|---|---|---|
| Critigol<br><br>Dyfais / offeryn / eitem mewn cysylltiad â meinwe neu waed | Ar gyfer pob nodwydd, caniwlâu / bariau nodwyddau / clampiau/gefeiliau / gripiau / gefeiliau bach sy'n dod i gysylltiad â gwaed neu feinwe | Mae nodwyddau a chaniwlâu untro yn cael eu gwaredu mewn cynhwysydd offer miniog.<br><br>Ar gyfer dyfeisiau, datgysylltu os oes angen gan ddefnyddio offer amddiffynnol priodol, glanhau gyda dŵr a glanedydd, a sterileiddio |
| Lled-gritigol<br><br>Dyfais sy'n dod i gysylltiad â philenni mwcaidd neu groen nad yw'n gyfan | Nodwyddau sy'n dod i gysylltiad â philenni mwcaidd<br><br>Gynnau tyllu'r glust / y trwyn (gyda chetrisau) | Nodwyddau untro<br><br>Glanhau corff y ddyfais gwn gyda dŵr a glanedydd yn gyntaf a defnyddio swab alcohol 70% neu Ddiheintydd Lefel Uchel (HLD) sy'n gydnaws â'r ddyfais. Gellir defnyddio weipiau diben deuol os ydynt yn gweithio yn erbyn bacteria, feirysau a ffyngau (gweler y tabl yn adran 8.2).<br><br>Rhaid rhoi sylw i fannau cymhleth a mannau lle bu cysylltiad â'r croen. Dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr. |
| Heb fod yn gritigol<br><br>Eitemau sy'n dod i gysylltiad â chroen cyflawn (heb ei dorri) | Unrhyw eitem **na** fydd yn dod i gysylltiad â gwaed, pilenni mwcaidd, neu groen wedi torri | Glanedydd a dŵr |
| Amrywiol | Sbatwlâu, rhwyllen a thywelion papur, tiwbiau, potiau inc, bandiau elastig<br><br>Gorchuddion ar gyfer lidiau a moduron | Eitemau untro sy'n cael eu gwaredu mewn bag gwastraff priodol. |

## 12.6 Canllawiau ychwanegol i liniaru halogi dyfeisiau cymhleth

**Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r amodau yn Atodlen 3, Rheoliad 7 (3) o Reoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024**

Amod 7: Offer ac Offerynnau

Gellir gorchuddio'r dyfeisiau ar gyfer tatŵio a'r dyfeisiau ar gyfer colur lled-barhaol hefyd er mwyn amddiffyn yn erbyn halogi â gwaed a hylif y corff. Ni ddylai gorchuddion roi ymdeimlad ffug o ddiogelwch, a dylid cymryd gofal wrth eu tynnu er mwyn atal ail-halogi'r ddyfais, y dwylo a'r amgylchedd.



***Ffigur E** Defnyddio gorchuddion ar gyfer lidiau/gripiau a'r ddyfais ei hun.*

*Rhaid newid y gorchuddion rhwng cleientiaid a'u gwaredu.*

*Mae gorchuddion bioddiraddadwy ar gael.*

### 2.6.1 Cetris ar gyfer dyfeisiau tatŵ a cholur lled-barhaol

Mae yna risg o halogiad gan y nodwydd i mewn i brif gorff y ddyfais â gwaed, a gellir lleihau hyn trwy ddefnyddio system getrisen bilen.



***Ffigur J** Dylai systemau cetris nodwyddau fod â philenni sy'n atal gwaed a hylifau eraill rhag mynd yn ôl i brif gorff y ddyfais.*

2.6.2 **Dihalogi dyfeisiau tatŵ coil/SPMU a darnau/offerynnau eraill na allant wrthsefyll tymereddau sterileiddio (mewn ffwrn aerglos)**

Mewn nifer fach o sefyllfaoedd, ni fydd modd sterileiddio eitemau oherwydd difrod posibl i ddarnau sensitif o'r ddyfais megis dyfeisiau Coil (Ffigur K) a darnau modur mewn dyfeisiau pen/cylchdro (Ffigur L).





**Ffigur K** Dyfais Coil **Ffigur L** Pen/cylchdro (cydrannau wedi'u dadgydosod)

- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr os ydynt ar gael ar gyfer sut i lanhau'r ddyfais.
- Rhaid dadgydosod y ddyfais cyn glanhau.
- Dylid glanhau â llaw gan ddefnyddio lliain nad yw'n cynnwys lint, a glanhau pob darn o'r ddyfais gyda dŵr a glanedydd cyn diheintio.
- Dylid dewis diheintydd lefel uchel (HLD) a fwriedir ar gyfer dyfeisiau anfewnwthiol ac nid HLD i'w ddefnyddio ar arwynebau. Byddai enghreifftiau a argymhellir o ddiheintyddion priodol yn cynnwys asid paracetig neu glorin deuocsid os ydynt yn gydnaws â'r ddyfais ac os ydynt ar gael ar ffurf weip yn rhwydd.
- Dylai'r dull a'r amser cyswllt gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar gyfer yr HLD.
- Dylai amser sychu gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar gyfer yr HLD.

*Dylai unrhyw fandiau elastig a ddefnyddir fod yn fandiau untro, a dylid eu gwaredu rhwng cleientiaid.*

12.7 **Beth yw sterileiddio gydag ager?**

Mae dyfeisiau sterileiddio gydag ager yn cael eu defnyddio i sterileiddio offerynnau/dyfeisiau trwy gyswllt uniongyrchol â'r eitemau wedi'u llwytho gydag ager dirlawn dan wasgedd ar dymheredd ac amser cyswllt sy'n gwaredu micro-organebau hyfyw. Enghraifft o dymheredd a hyd delfrydol fyddai 134ºC ar gyfer cyswllt 3 munud.

### 12.7.1 Math o ddyfais sterileiddio gydag ager pen mainc (ffwrn aerglos)

Math N: Mae dyfeisiau sterileiddio di-wactod ar gyfer offerynnau a gemwaith solet heb eu lapio. Nid ydynt wedi'u cynllunio i sterileiddio offerynnau neu emwaith gyda lwmen (gwag). Gellir defnyddio'r dull hwn hefyd ar gyfer eitemau nad oes angen iddynt fod yn ddi-haint adeg eu defnyddio ond sydd angen eu sterileiddio rhwng pob cleient. Er enghraifft, gellid defnyddio'r dull hwn ar gyfer gefeiliau bach sydd wedi dod i gysylltiad â gwaed neu feinwe (tynnu gwallt allan / torri'r croen).

Math B: Mae dyfeisiau sterileiddio gwactod yn gallu prosesu eitemau gwag a solet gan gynnwys eitemau wedi'u pecynnu (mewn pwrs). Maent yn cynnwys cam gwactod sy'n tynnu aer o'r siambr er mwyn caniatáu i ager gyffwrdd â'r holl arwynebau. Bydd eitemau'n aros yn ddi-haint nes bod y pecyn neu'r pwrs yn cael ei agor neu pan fydd y dyddiad defnydd yn dod i ben.

Math N



Math B



Wrth ddefnyddio dyfais sterileiddio Math N, unwaith y bydd y drws yn cael ei agor, mae'n bwysig nodi y bydd yr offerynnau yn cael eu halogi fwyfwy gan yr amgylchedd gan nad ydynt mewn pecyn neu bwrs di-haint. Felly, dylid defnyddio eitemau ar unwaith (gweler y llun uchod).

### 12.7.2 Awgrymiadau allweddol ar gyfer dyfeisiau sterileiddio ager pen mainc gan gynnwys monitro

Rhaid archwilio ac ardystio'r ddyfais sterileiddio yn unol â'r Rheoliadau Diogelwch Systemau Gwasgedd (PSSR).

- Ni ddylid byth ailbrosesu eitemau untro.
- Dylid prosesu cynhyrchion gwag/tiwbaidd mewn dyfais sterileiddio ager pen mainc gwactod addas.
- Cyn llwytho, rhaid glanhau a sychu'r holl eitemau. Ni ddylid gorlwytho'r ddyfais sterileiddio rhag ofn na fydd rhai eitemau'n cael eu sterileiddio'n llawn. Rhaid osgoi gosod gormod o byrsiau neu becynnau gyda'i gilydd.

- Rhaid gwirio perfformiad cylchred sterileiddio gwactod pen mainc bob dydd gan fonitro'r amser a'r tymheredd â llaw neu drwy gofnodydd data (llwyddo neu fethu) a dylai gynnwys dangosydd cemegol hefyd fel y prawf math Bowie Dick wedi'i ddilysu ar amleddau penodol.

- Dylid glanhau'r siambr a'r gronfa, a defnyddio dŵr o ansawdd diffiniedig fel y nodwyd gan wneuthurwr y ddyfais sterileiddio e.e. dŵr di-haint ar gyfer chwistrellu/dyfrhau.

- Dylid cadw cofnodion o wiriadau diogelwch gan gynnwys gwiriadau systemau gwasgedd, pob cylchred sterileiddio a chofnodi gwaith cynnal a chadw mewn llyfr.

- Mae cyngor technegol ar gael gan Beirianwyr Awdurdodi Cofrestredig (Dihalogi).

## 13. Cyfeiriadau


1. Casglu Deunyddiau Gwastraff Ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru (n.d.). Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/casglu-deunyddiau-gwastraff-ar-wahan-ar-gyfer-ailgylchu-cod-ymarfer-cymru. (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
2. Barn yr asiantaeth ar ddosier Atodiad 15 sy'n cynnig cyfyngiadau ar sylweddau mewn inc tatŵ a cholur parhaol. (n.d.). Ar gael yn: https://www.hse.gov.uk/reach/restrictions/tattoo-inks/opinion.pdf [Defnyddiwyd: 06 Awst 2024].
3. Yr Adran Iechyd (2013). Memorandwm Technegol Iechyd 01-05: Dihalogi mewn Practisau Deintyddol Gofal Sylfaenol. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2021/05/HTM_01-05_2013.pdf. (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
4. Gov.UK (2018). Dyletswydd gofal gwastraff: cod ymarfer. [ar-lein] GOV.UK. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/waste-duty-of-care-code-of-practice/waste-duty-of-care-code-of-practice. (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
5. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2013). Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol – anafiadau gan offer miniog. [ar-lein] Hse.gov.uk. Ar gael yn: https://www.hse.gov.uk/healthservices/needlesticks/. ( Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
6. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2019). Dulliau dihalogi – Feirysau a gludir yn y gwaed (BBV). [ar-lein] Hse.gov.uk. Ar gael yn: https://www.hse.gov.uk/biosafety/blood-borne-viruses/methods-of-decontamination.htm. (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
7. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – Croen yn y gweithle: Dewis menyg latecs. (n.d.). Www.hse.gov.uk. https://www.hse.gov.uk/skin/employ/latex-gloves.htm (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
8. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (n.d.). Trosolwg – Awyru yn y gweithle. [ar-lein] www.hse.gov.uk. Ar gael yn: https://www.hse.gov.uk/ventilation/overview.htm. (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
9. Legislation.gov.uk. (2017). Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2#:~:text=An%20Act%20of%20the%20National. (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
10. NICE (2019). Trosolwg | Heintiau clwyfau llawfeddygol: atal a thriniaeth | Canllawiau | NICE. [ar-lein] Nice.org.uk. Ar gael yn: https://www.nice.org.uk/guidance/ng125.
11. Public Health England. (2013, March 20). Hepatitis B: the green book, chapter 18. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/hepatitis-b-the-green-book-chapter-18 (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
12. Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2024). Pennod 1 Rhagofalon Rheoli Heintiau Safonol (SICPs). [ar-lein] Ar gael yn: https://phw.nhs.wales/services-and-teams/antibiotics-and-infections/nipcm/chapter-1-standard-infection-control-precautions-sicps/. (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
13. Iechyd Cyhoeddus Cymru. (n.d.). NIPCM. [online] Ar gael yn: https://phw.nhs.wales/services-and-teams/antibiotics-and-infections/nipcm/. (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
14. researchwalesevidencecentre.co.uk. (2023). Adolygiad cyflym o risgiau iechyd corfforol sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig (tatŵio, tyllu corff, aciwbigo, electrolysis) | Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. [ar-lein] Ar gael yn: https://researchwalesevidencecentre.co.uk/cy/ThriniaethauArbennig. (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
15. RSPH (2023). RSPH | Dyfarniad Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig. [ar-lein] Rsph.org.uk. Ar gael yn: https://www.rsph.org.uk/qualification/level-2-award-in-infection-prevention-and-control-for-special-procedures-practitioners.html?gad_source=1&gclid=EAIaIQobChMIuPeo2ufGhgMVU5xQBh30EAKcEAAYASAAEgJmlvD_BwE [Defnyddiwyd: 06 Awst 2024].

16. Scot.nhs.uk. (2024). National Infection Prevention and Control Manual: Appendix 5 - Gloves Use and Selection. [online] Ar gael yn: https://www.nipcm.scot.nhs.uk/appendices/appendix-5-gloves-use-and-selection/ [Defnyddiwyd: 06 Awst 2024].
17. The Berkey. (n.d.). The Difference Between Sterile, Distilled and Deionized Water. [ar-lein] Ar gael yn: https://theberkey.com/blogs/water-filter/the-difference-between-sterile-distilled-and-deionized-water. (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
18. Velindre (2023) Cyf: PP 03 Polisi Amgylcheddol yr Ymddiriedolaeth. Ar gael yn: https://velindre.nhs.wales/policies/planning-performance-and-estates/environmental-policy/ (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
19. WHTM 07-01 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru – Rheoli gwastraff gofal iechyd yn ddiogel. (n.d.). Ar gael yn: https://nwssp.nhs.wales/ourservices/specialist-estates-services/specialist-estates-services-documents/whtms-library/whtm-07-01-safe-management-of-healthcare-waste-pdf/. (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024).
20. www.antt.org. (n.d.). Hafan. [ar-lein] Ar gael yn: http://www.antt.org/.
21. www.hse.gov.uk. (n.d.). UK REACH basics - REACH - HSE. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.hse.gov.uk/reach/basics.htm. (Defnyddiwyd: 06 Awst 2024)

## 14. Atodiadau

### 14. 1 Enghraifft o arferion gorau yn y weithfan

Awgrymiadau ar gyfer gwella arferion trwy gymhwyso egwyddorion rhagofalon atal a rheoli heintiau wrth sefydlu'r weithfan. Gellir addasu'r egwyddorion ar gyfer pob gweithdrefn.

*Dylai'r weithfan fod yn rhydd o annibendod er mwyn osgoi halogiad ac anaf, ac i alluogi glanhau.*

Enghraifft o weithfan tatŵio gydag enghreifftiau o beryglon i'w hosgoi.



Peidiwch ag ychwanegu at boteli y gellir eu hail-lenwi - golchwch y botel a'r ffroenell. Rhaid sicrhau eu bod wedi cael eu labelu.

Ni ddylid defnyddio dŵr tap ar gyfer fflysio inciau a phigmentau.

Dylid storio potiau/llestri inc yn eu deunydd pacio gwreiddiol neu eu storio mewn symiau bach mewn cynwysyddion glân.


Dylid gosod nodwyddau heb eu diogelu mewn lle diogel er mwyn osgoi anaf i'r ymarferydd.

1 4.2 Gweithfan Arferion Gorau ar gyfer electrolysis

Enghraifft o weithfan electrolysis gydag enghreifftiau o beryglon i'w hosgoi.

Ni ddylid gadael eitemau yn trochi mewn diheintydd.

Dylid osgoi gosod biniau sy'n cynnwys offer miniog ar y llawr, a defnyddiwch ddull cau dros dro bob amser.



Dylid osgoi storio'r weithfan wrth ymyl dodrefn meddal a allai fod wedi'u halogi neu wrth ymyl ffynhonnell wres.

Bydd hancesi papur a rhwyllen agored yn cael eu halogi gan ddwylo a'r amgylchedd. Dylid rhoi’r eitemau mewn cynwysyddion llai a'u gorchuddio.

1 4.3 Techneg hylif diheintio dwylo ag alcohol



14.4 Sut i ddefnyddio sebon a dŵr ar gyfer hylendid dwylo

Dylai'r broses bara 15-30 eiliad.



14.5 Enghraifft o Ganllawiau Triniaeth ANTT




**Ffigur B**. Dyma enghraifft o Ganllawiau Triniaeth ANTT (ar gael yn rhad ac am ddim gan www.antt.org). Mae'n darparu dilyniant diogel ac effeithlon ar gyfer y driniaeth, gan amlygu camau ANTT-Safonol. **Ni fwriedir i'r canllawiau fod yn gynhwysfawr nac yn rhagnodol gan fod offer lleol a dulliau diheintio yn gallu bod yn wahanol.**

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach